



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2006 Rhif 180 (Cy. 31)**

**2006 No. 180 (W. 31)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau  
(Rheoli Brechu) (Cymru)  
2006**

**The Foot-and-Mouth Disease  
(Control of Vaccination) (Wales)  
Regulations 2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn trosi'r agweddau hynny ar Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/85/EC ar fesurau'r Gymuned i reoli clwy'r traed a'r genau ("y Gyfarwyddeb") sy'n ymwneud â brechu yn erbyn clwy'r traed a'r genau ("y clwy").

These Regulations, which apply in relation to Wales, transpose those aspects of Council Directive 2003/85/EC on Community measures for the control of foot and mouth disease ("the Directive") that relate to vaccination against foot and mouth disease ("disease").

Mae Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006, sy'n dod i rym ar yr un pryd â'r Rheoliadau hyn, a Rheoliadau Deddf Iechyd Anifeiliaid (Diwygio) 2005, yn rhoi effaith i weddill darpariaethau'r Gyfarwyddeb.

The Foot and Mouth Disease (Wales) Order 2006, which comes into force contemporaneously with these Regulations, and the Animal Health Act (Amendment) Regulations 2005, give effect to the remaining provisions of the Directive.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaethau cyflwyno a dehongli.

Part 1 of the Regulations contain introductory and interpretative provisions.

Mae Rhannau 2 yn darparu ar gyfer rhaglen frechu yn erbyn y clwy ac mae Rhan 3 yn rhagnodi darpariaeth gyffredinol ac atodol. Yn benodol mae rhannau 2 a 3 yn darparu ar gyfer y canlynol:

Parts 2 makes provision for a programme of vaccination against disease and Part 3 prescribes general and supplementary provision. In particular Part 2 and 3 provide for the following:

- (a) gorchymyn gwahardd brechu onid yw o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol (rheoliad 8);
- (b) ffactorau sydd i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded sy'n caniatáu brechu ataliol neu frechu amddiffynnol (rheoliad 9);
- (c) ffurf y penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu (rheoliad 10);
- (ch) effaith trwyddedau sy'n caniatáu brechu (rheoliad 11);

- (a) prohibition of vaccination unless under authority of a licence granted by the National Assembly (regulation 8);
- (b) factors to be taken into account by the National Assembly in deciding to whether to grant a licence permitting suppressive or protective vaccination (regulation 9);
- (c) form of decisions to undertake vaccination programmes (regulation 10);
- (d) effect of licences permitting vaccination (regulation 11);

- (d) hwyluso gweithdrefnau brechu gan geidwaid (rheoliad 12);
- (dd) datgan, a mesurau sy'n gymwys o fewn, parthau brechu a pharthau gwyliadwriaeth brechu (rheoliadau 13 i 17);
- (e) estyn y pŵer i frechu yn adran 16 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (rheoliad 18);
- (f) gofynion o ran dynodi anifeiliaid sydd wedi'u brechu gan gynnwys darpariaethau ynghylch pasbortau gwartheg, tagiau clust a dynodi ar gyfer gwerthu a chigydda (rheoliadau 19 i 22);
- (ff) darpariaeth ar gyfer achosion lle na chafodd anifeiliaid (a'u carcasau) a gafodd eu cynnwys mewn rhaglenni brechu eu brechu (rheoliadau 23 & 24);
- (g) Arolygu a dosbarthu mangre (rheoliad 25);
- (ng) Dyletswydd awdurdod lleol i godi arwyddion (rheoliad 26);
- (h) Gwahardd masnach o fewn y Gymuned o anifeiliaid sydd wedi'u brechu (rheoliad 27);
- (i) Glanhau a diheintio cebydau a ddefnyddir yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau hyn (rheoliad 28);
- (j) Marciau a osodir ar anifeiliaid, cynhyrchion anifeiliaid, carcasau a cherbydau o dan y Rheoliadau hyn (rheoliad 29);
- (l) Mynediad a chyfleusterau sydd i'w darparu gan bersonau sydd â hawl i feddiannaeth pan rwystrir anifeiliaid neu ddofednod rhag symud o'u mangre o dan gyfyngiadau symud (rheoliad 30);
- (ll) Darparu cymorth, cofnodion a gwybodaeth, i arolygwyr, tramgwyddau, pŵerau archwilwyr a phŵerau gorfodi cyffredinol gan gynnwys cymhwyso darpariaethau penodol (gan gynnwys darpariaethau gorfodi) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i'r Rheoliadau hyn (rheoliadau 31 i 42).
- (e) facilitation of vaccination procedures by keepers (regulation 12);
- (f) declaration of, and measures applicable within, vaccination zones and vaccination surveillance zones (regulations 13 to 17);
- (g) extension of the power to vaccinate in section 16 of the Animal Health Act 1981 (regulation 18);
- (h) requirements as to the identification of vaccinated animals including provisions concerning cattle passports, eartags and identification for sale and slaughter (regulations 19 to 22 );
- (i) provision for cases where animals (and their carcasses) included in vaccination programmes have not been vaccinated (regulations 23 & 24);
- (j) Survey and classification of premises (regulation 25);
- (k) Duty of local authority to erect signs (regulation 26);
- (l) Prohibition on intra-Community trade of vaccinated animals (regulation 27);
- (m) Cleansing and disinfection of vehicles used pursuant to the provisions of these Regulations (regulation 28);
- (n) Marks applied to animals, animal products, carcasses and vehicles under these Regulations (regulation 29);
- (o) Access and facilities to be provided by persons entitled to occupation where animals or poultry are prevented from moving from their premises by movement restrictions (regulation 30);
- (p) Provision of assistance, records and information to inspectors, offences, powers of inspectors and general powers of enforcement including the application of certain provisions (including enforcement provisions) of the Animal Health Act 1981 to these Regulations (regulations 31 to 42).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Ardaloedd Heintiedig) 1972 (O.S. 1972/1509) (i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru), a Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Gwahardd Brechu) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2374). (rheoliad 43)

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

These Regulations also revoke the Foot and Mouth Disease (Infected Areas) Vaccination) Order 1972 (S.I. 1972/1509) (insofar as it applies in relation to Wales), and the Foot and Mouth Disease (Prohibition of Vaccination)(Wales) regulations 2001 (S.I. 2001/2374) (regulation 43).

A Regulatory Appraisal has been prepared in respect of these Regulations and is available for inspection at the offices of the National Assembly for Wales, Department for Environment, Planning and Countryside, Cathays Park, Crown Buildings, Cardiff, CF10 3NQ.

**2006 Rhif 180 (Cy. 31)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau  
(Rheoli Brechu) (Cymru)  
2006**

*Wedi'u gwneud*                      *31 Ionawr 2006*  
*Yn dod i rym*                      *1 Chwefror 2006*

**TREFN Y RHEOLIADAU**

**RHAN 1**

**Cyflwyniad**

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Mangre sy'n dir comin neu dir heb ei gau
4. Trwyddedau a datganiadau
5. Hysbysiadau
6. Dosbarthu gwybodaeth ynghylch cyfyngiadau a gofynion
7. Diheintio

**RHAN 2**

**Y rhaglen frechu**

8. Gwahardd brechu ac eithrio o dan drwydded
9. Ffactorau sy'n cyfrannu at benderfyniad i ganiatáu brechu ataliol neu amddiffynnol
10. Ffurf y penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu
11. Trwyddedau sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol

**2006 No. 180 (W. 31)**

**ANIMALS, WALES**

**ANIMAL HEALTH**

**The Foot-and-Mouth Disease  
(Control of Vaccination) (Wales)  
Regulations 2006**

*Made*                                      *31 January 2006*  
*Coming into force*                      *1 February 2006*

**ARRANGEMENT OF REGULATIONS**

**PART 1**

**Introduction**

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Premises comprising common or unenclosed land
4. Licences and declarations
5. Notices
6. Dissemination of information concerning restrictions and requirements
7. Disinfection

**PART 2**

**The vaccination programme**

8. Prohibition on vaccination except under licence
9. Factors informing a decision to permit suppressive or protective vaccination
10. Form of a decision to undertake a vaccination programme.
11. Licences permitting suppressive or protective vaccination

- |  |   |
|--|---|
| 12. Hwyluso brechu   | 12. Facilitation of vaccination   |
| 13. Datgan parth brechu a datgan parth gwyliadwriaeth brechu                   | 13. Declaration of a vaccination zone and of a vaccination surveillance zone            |
| 14. Datgan parth gwyliadwriaeth brechu ar frechu amddiffynnol yn Lloegr        | 14. Declaration of a vaccination surveillance zone on protective vaccination in England |
| 15. Parthau brechu a pharthau gwyliadwriaeth brechu: darpariaethau cyffredinol | 15. Vaccination zones and vaccination surveillance zones: general provisions            |
| 16. Cyfnodau amser a mesurau sy'n gymwys i barth brechu                        | 16. Time phases and measures applicable in respect of a vaccination zone                |
| 17. Mesurau sy'n gymwys i barth gwyliadwriaeth brechu                          | 17. Measures applying in a vaccination surveillance zone                                |
| 18. Estyn y pŵer i beri brechu   | 18. Extension of the power to cause vaccination   |
| 19. Dynodi anifeiliaid sydd wedi'u brechu                                      | 19. Identification of vaccinated animals  |
| 20. Marcio Pasbortau anifeiliaid   | 20. Marking of cattle passports   |
| 21. Tynnu tagiau clust a thagiau a gollwyd                                     | 21. Removal of eartags and missing eartags  |
| 22. Gwerthu a chigydda anifeiliaid sydd wedi'u brechu                          | 22. Sale and slaughter of vaccinated animals  |
| 23. Methu â brechu anifeiliaid a bennwyd ar gyfer eu brechu                    | 23. Failure to vaccinate animals specified for vaccination                              |
| 24. Carcasau anifeiliaid a bennwyd ar gyfer eu brechu                          | 24. Carcasses of animals specified for vaccination                                      |
| 25. Arolygu a dosbarthu mangre yn ystod cyfnod 2                               | 25. Survey and classification of premises during phase 2                                |
| 26. Dyletswydd awdurdod lleol i godi arwyddion                                 | 26. Duty of the local authority to erect signs  |
| 27. Masnach anifeiliaid sydd wedi'u brechu o fewn y Gymuned                    | 27. Intra-Community trade of vaccinated animals   |

### RHAN 3

### PART 3

- |   |  |
|---|--|
| Darpariaethau cyffredinol ac atodol   | General and supplementary provisions   |
| 28. Glanhau a diheintio cerbydau: darparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau | 28. Cleansing and disinfection of vehicles: provision of facilities, equipment and materials |
| 29. Marciau a osodir o dan y Rheoliadau hyn                                   | 29. Marks applied under these Regulations  |
| 30. Newid meddiannaeth mangre sydd o dan gyfyngiad                            | 30. Change of occupation of premises under restriction                                       |
| 31. Cymorth rhesymol  | 31. Reasonable assistance  |
| 32. Gwybodaeth anwir  | 32. False information  |
| 33. Dangos cofnodion  | 33. Production of records  |
| 34. Cydymffurfio â hysbysiadau a chyfarwyddiadau                              | 34. Compliance with notices and directions   |
| 35. Pwerau arolygwyr  | 35. Powers of inspectors   |
| 36. Gorfodi, troseddau ac achosion  | 36. Enforcement, offences and proceedings  |

37. Dangos trwyddedau
38. Pwerau cyffredinol arolygwyr milfeddygol i gymryd camau i rwystro clwy rhag lledu
39. Pwerau arolygwyr os ceir methiant
40. Tramgwydd gan gyrff corfforaethol
41. Tramgwyddau: dim gwybodaeth am y cyfyngiad neu'r gofyniad
42. Gorfodi
43. Dirymiadau

YR ATODLEN - Mesurau sy'n gymwys o ran parth brechu

RHAN 1 - Symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy

RHAN 2 - Cig ffres, briwrig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol

RHAN 3 - Cynhyrchion heblaw cig ffres etc.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(2), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud drwy hyn y Rheoliadau a ganlyn:

## RHAN 1

### Cyflwyniad

#### Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006:

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

#### Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

mae "anifail buchol" ("*bovine animal*") yn cynnwys byfflo a bison;

ystyr "anifail sy'n dueddol i gael y clwy" ("*susceptible animal*") yw tarw, buwch, dafad, gafr,

(1) 1972, p.68.

(2) O.S. 2005/2766.

37. Production of licences
38. General powers of veterinary inspectors to take action to prevent the spread of disease
39. Powers of inspectors in case of default
40. Offences by bodies corporate
41. Offences: no knowledge of restriction or requirement
42. Enforcement
43. Revocations

SCHEDULE - Measures applicable in respect of a vaccination zone

PART 1 - Movement of susceptible animals

PART 2 - Fresh meat, minced meat and mechanically separated meat

PART 3 - Products other than fresh meat etc.

The National Assembly for Wales, being designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) in relation to the common agricultural policy of the European Community(2), exercising the powers conferred upon it by that section hereby makes the following Regulations:

## PART 1

### Introduction

#### Title, application and commencement

1.-(1) The title of these Regulations is the Foot-and-Mouth Disease (Control of Vaccination) (Wales) Regulations 2006.

(2) They apply in relation to Wales and come into force on 1 February 2006.

#### Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"the Act" means the Animal Health Act 1981(3);

"animal product" means anything originating or made (whether in whole or in part) from an animal or from a carcass;

(1) 1972, c.68

(2) S.I. 2005/2766

(3) 1981, c.22, amended by the Animal Health Act 2002, c.42.

carw, camel, lama, alpaco, gwanaco, ficwnia, unrhyw anifail arall sy'n cnoi cil, unrhyw fochyn (hynny yw, aelod o is-urdd Suina o urdd Artiodactyla), eleffant neu gnofil (heblaw cnofil anwes);

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd,

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw arolygydd a benodwyd o dan y Ddeddf;

mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a bennwyd ar gyfer "local authority" gan adran 50(1) o'r Ddeddf;

ystyr "brechu" ("*vaccinate*") yw trin anifail sy'n dueddol i gael y clwy â serwm tra-imiwn neu frechlyn rhag y clwy;

ystyr "brechu amddiffynnol" ("*protective vaccination*") yw brechu a gyflawnir er mwyn amddiffyn anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy rhag ymlediad firws y clwy drwy'r awyr neu drwy fagwrfeydd lle nad oes bwriad i gigydda'r anifeiliaid sydd wedi'u brechu er mwyn atal y clwy rhag ymledu;

ystyr "brechu ataliol" ("*suppressive vaccination*") yw brechu a gyflawnir mewn mangre neu mewn ardal lle y mae taer angen atal y clwy rhag ymledu i'r tu allan i'r daliad neu'r ardal drwy leihau'r niferoedd o firysau'r clwy sy'n cylchredeg yno lle y mae bwriad i gigydda'r anifeiliaid sydd wedi'u brechu er mwyn atal y clwy rhag ymledu;

ystyr "briwigig" ("*minced meat*") yw cig y tynnwyd yr esgyrn ohono a'i falu'n ddarnau mân ac sy'n cynnwys llai nag 1% o fraster;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcass anifail ac mae'n cynnwys rhan o garcas, a'r cig, yr esgyrn, y croen, y pilennau, y carnau, offal neu unrhyw ran o anifail, ar wahân neu fel arall, neu unrhyw gyfran ohono;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid, boed hynny'n barhaol neu dros dro, ond nid yw'n cynnwys unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid dim ond am ei fod yn eu cludo;

mae "cerbyd" ("*vehicle*") yn cynnwys-

(a) trelar, lled-drelar, neu beth arall a gynlluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei dynnu gan gerbyd arall;

"border inspection post" means a place specified as a border inspection post in Schedule 2 to the Animal and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2005(1);

"bovine animal" includes buffalo and bison;

"carcase" means the carcase of an animal and includes part of a carcase, and the meat, bones, hide, skin, hooves, offal or other part of an animal, separately or otherwise, or any portion thereof;

"disease" means foot-and-mouth disease;

"fresh meat" means meat (including offal and any meat preparation) that has not undergone any preserving process other than chilling, freezing or quick-freezing, including meat that is vacuum wrapped or wrapped in a controlled atmosphere;

"health marked" means bearing the health mark required by article 5(2) of Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(2);

"identification marked" means bearing the identification mark required by article 5(1) of Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(3);

"infected premises" means any premises declared to be infected premises under the Order;

"keeper" means any person responsible for animals, whether on a permanent or temporary basis, but does not include a person who is responsible for animals solely because he or she is transporting them;

"inspector" means an inspector appointed under the Act;

"local authority" has the meaning assigned to that term by section 50(1) of the Act;

"meat preparation" means fresh meat, including meat that has been reduced to fragments, which has had foodstuffs, seasonings or additives added to it or which has undergone processes insufficient to modify the internal muscle fibre structure of the meat and thus to eliminate the characteristics of fresh meat;

"mechanically separated meat" means the product obtained by removing meat from flesh-bearing

---

(1) S.I. 2005/1158 (W.75)..

(2) OJ No. L139, 30.4.2004, p.206. The revised text of the Regulation is contained in a corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.83).

(3) OJ No. L139, 30.4.2004, p.55. The revised text of the Regulation is contained in a corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.22).

- (b) rhan o gerbyd y gellir ei datgysylltu;
- (c) cynhwysydd neu strwythur arall a gynlluniwyd ar gyfer ei gario gan neu ar gerbyd.

ystyr "cig ffres" ("*fresh meat*") (gan gynnwys offal ac unrhyw baratoad cig) yw cig nad yw wedi mynd drwy unrhyw broses breserfio ac eithrio oeri, rhewi neu frysrewi, gan gynnwys cig a lapiwyd dan wactod neu a lapiwyd mewn awyrgylch a reolir;

ystyr "cig wedi'i wahanu'n fecanyddol" ("*mechanically separated meat*") yw'r cynnyrch a geir wrth grafu cig oddi ar esgyrn sy'n cynnal cnawd ar ôl tynnu'r esgyrn, gan ddefnyddio dulliau mecanyddol sy'n arwain at golli neu addasu strwythur ffibr y cyhyrau;

ystyr "cigydda" ("*slaughter*") yw unrhyw broses sy'n peri marwolaeth anifail;

ystyr "y clwy" ("*disease*") yw clwy'r traed a'r genau;

ystyr "cyfnod 1" ("*phase 1*"), mewn cysylltiad â pharth brechu, yw'r cyfnod amser sy'n dechrau wrth ddatgan y parth brechu hwnnw ac yn gorffen wrth wneud datganiad o dan reoliad 16(2);

ystyr "cyfnod 2" ("*phase 2*"), mewn cysylltiad â pharth brechu, yw'r cyfnod amser sy'n dechrau wrth i gyfnod 1 ddod i ben ac yn gorffen wrth wneud datganiad o dan reoliad 16(3);

ystyr "cyfnod 3" ("*phase 3*"), mewn cysylltiad â pharth brechu, yw'r cyfnod amser sy'n dechrau wrth i gyfnod 2 ddod i ben ac yn gorffen wrth wneud datganiad o dan reoliad 16(4);

ystyr "cynnyrch anifeiliaid" ("*animal product*") yw unrhyw beth sy'n deillio neu sydd wedi'i wneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o anifail neu o garcas;

mae "cynnyrch llaeth" ("*milk product*") yn cynnwys menyn, caws, maidd, iogwrt ac unrhyw gynnyrch arall sydd wedi'i wneud yn bennaf o laeth;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "yn dwyn marc iechyd" ("*health marked*") yw dwyn y marc iechyd sy'n ofynnol gan erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir eu bwyta gan bobl(1);

bones after boning, using mechanical means resulting in the loss or modification of the muscle fibre structure;

"milk" includes cream, separated milk, skimmed milk and buttermilk;

"milk product" includes butter, cheese, whey, yoghurt and any other product the main constituent of which is milk;

"minced meat" means boned meat that has been minced into fragments and contains less than 1% salt;

"National Assembly" means the National Assembly for Wales;

"occupier" means, in relation to any premises, the person in charge of those premises;

"the Order" means the Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006(1);

"overstamped" means, in relation to a health marked or identification marked item bearing an additional diagonal cross consisting of two straight lines intersecting at the centre of the health or identification mark and allowing the information there to remain legible (irrespective of whether that additional cross is applied by the same stamp as the mark);

"phase 1" means, in respect of a vaccination zone, the period of time commencing with declaration of that vaccination zone and ending with a declaration under regulation 16(2);

"phase 2" means, in respect of a vaccination zone, the period of time commencing with the end of phase 1 and ending with a declaration under regulation 16(3);

"phase 3" means, in respect of a vaccination zone, the period of time commencing with the end of phase 2 and ending with a declaration under regulation 16(5);

"premises" includes any land, building or other place;

"protection zone" means a protection zone declared under the Order;

"protective vaccination" means vaccination carried out to protect susceptible animals against airborne spread or spread through fomites of the disease virus and where the vaccinated animals are not intended to be slaughtered to prevent the spread of disease;

(1) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.206. Ceir testun diwygiedig y Rheoliad mewn coriendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83).

(1) S.I. 2006/180 (W.319).

ystyr "yn dwyn marc dynodi" ("*identification marked*") yw dwyn y marc dynodi sy'n ofynnol gan erthygl 5(1) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(2);

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006(3);

ystyr "gwerthu" ("*sell*") yw gwerthu i'r defnyddiwr olaf;

mae i "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yr ystyr a roddir i'r ymadrodd hwnnw yn rheoliad 5(6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(4);

mae "llaeth" ("*milk*") yn cynnwys hufen, llaeth wedi'i hidlo, llaeth sgim a llaeth enwyn;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys tir, gydag adeiladau neu hebddynt;

ystyr "mangre adweithydd" ("*reactor premises*") yw mangre y datganwyd ei bod yn fangre adweithydd o dan reoliad 25(1)(b)(ii);

ystyr "mangre sydd wedi'i heintio" ("*infected premises*") yw unrhyw fangre y datganwyd ei bod wedi'i heintio o dan y Gorchymyn;

ystyr "man archwilio ar y ffin" ("*border inspection post*"), yw lle a bennwyd yn fan archwilio ar y ffin yn Atodlen 2 i Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005(5);

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*") o ran unrhyw fangre, yw'r person sydd â gofal y fangre honno;

ystyr "paratoadau cig" ("*meat preparation*") yw cig ffres, gan gynnwys cig a falwyd yn ddarnau mân, yr ychwanegwyd bwydydd, sesno neu ychwanegion ato neu a fu drwy brosesau nad ydynt yn ddigonol i addasu strwythur ffibr cyhyrau mewnol y cig a chan hynny'n diddymu nodweddion cig ffres;

ystyr "parth brechu" ("*vaccination zone*") yw parth brechu a ddatganwyd o dan reoliad 13;

ystyr "parth gwyliadwraeth" ("*surveillance zone*")

"public highway" means a highway maintainable at the public expense;

"reactor premises" means premises declared to be reactor premises under regulation 25(1)(b)(ii);

"sell" means sell to the final consumer or user;

"slaughterhouse" has the meaning given to that term in regulation 5(6) of the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(1);

"slaughter" means any process which causes the death of an animal;

"suppressive vaccination" means vaccination carried out on premises or in an area where there is an urgent need to prevent the spread of disease outside the premises or area by reducing the quantity of circulating disease virus there and where the vaccinated animals are intended for slaughter to prevent the spread of disease;

"surveillance zone" means a surveillance zone declared under the Order;

"susceptible animal" means a cow, bull, sheep, goat, deer, camel, llama, alpaca, guanaco, vicuna, any other ruminant, any swine (that is, a member of the suborder Suina of the order Artiodactyla), elephant or rodent (other than a pet rodent);

"temporary control zone" means a temporary control zone declared under the Order;

"vaccinate" means treat a susceptible animal with hyperimmune serum or vaccine against disease;

"vaccination surveillance zone" means a vaccination surveillance zone declared under regulation 13;

"vaccination zone" means a vaccination zone declared under regulation 13;

"vehicle" includes-

- (a) a trailer, semi-trailer or other thing which is designed or adapted to be towed by another vehicle;
- (b) a detachable part of a vehicle;
- (c) a container or other structure designed or adapted to be carried by or on a vehicle;

---

(1) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55. Ceir testun diwygiedig y Rheoliad mewn coriendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22).

(2) 1981, p.22, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, c.42.

(3) O.S. 2006/180 (C.319)..

(4) O.S. 2005/31 (Cy.5).

(5) O.S. 2005/1159 (Cy.75).

---

(1) S.I. 2006/31 (W.5).



ystyr "parth gwyliadwriaeth brechu" (*vaccination surveillance zone*) yw parth gwyliadwriaeth a ddatganwyd o dan reoliad 13;

ystyr "parth gwarchod" (*protection zone*) yw parth gwarchod a ddatganwyd o dan y Gorchymyn;

ystyr "parth rheolaeth dros dro" (*temporary control zone*) yw parth rheolaeth dros dro a ddatganwyd o dan y Gorchymyn;

ystyr "priffordd gyhoeddus" (*public highway*) yw priffordd a gynhelir ar draul y cyhoedd; ac

ystyr "wedi'i stampio ar ben" (*overstamped*), o ran eitem sy'n dwyn marc iechyd neu farc dynodi sy'n dwyn croes groeslin ychwanegol sy'n ddwy linell syth ac sy'n croesdorri ar ganol y marc iechyd neu'r marc dynodi ac sy'n caniatáu i'r wybodaeth a geir yn y fan honno barhau'n ddarllenadwy (ar wahân i'r ffaith a osodwyd y groes ychwanegol gan yr un stamp â'r marc).

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "wedi'i bennu ar gyfer ei frechu" (*specified for vaccination*) yw anifail sydd i'w frechu mewn penderfyniad i gyflawni rhaglen frechu a wneir yn unol â rheoliad 9(2).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "anifeiliaid sy'n tarddu o" (*animals originating in*) barth brechu yn golygu-

- (a) anifeiliaid a gedwir yn y parth brechu, a
- (b) anifeiliaid a gafodd eu cadw o fewn ffiniau'r parth brechu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod-
  - (i) sy'n dechrau 21 o ddiwrnodau cyn datgan y parth yn barth brechu, a
  - (ii) sy'n dod i ben gyda'r datganiad hwnnw.

### **Mangre sy'n dir comin neu dir heb ei gau**

3. Yn y Rheoliadau hyn-

- (a) mae tir comin neu dir sydd heb ei gau yn ffurfio mangre ar wahân i dir arall oni bai-
  - (i) bod parseli o dir yn cyffinio, a
  - (ii) bod yr holl anifeiliaid a gedwir ar y naill barsel o dir dan ofal yr un ceidwad;
- (b) mae hysbysiad a gyflwynir i feddiannydd mangre sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn cynnwys unrhyw dir comin neu dir heb ei gau yn cael ei gyflwyno'n ddilys os cyflwynir ef i bob ceidwad anifeiliaid a gedwir yno (i'r graddau y gellir yn rhesymol wybod pwy yw'r personau hynny);
- (c) mae gofyniad neu gyfyngiad a osodir ar feddiannydd mangre sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn cynnwys unrhyw dir comin neu dir heb ei gau yn gymwys i bob ceidwad anifeiliaid a gedwir yno.

"veterinary inspector" means a veterinary inspector appointed under the Act.

(2) In these Regulations "specified for vaccination" means specified as an animal to be vaccinated in a decision to undertake a vaccination programme made in accordance with regulation 9(2).

(3) References in these Regulations to "animals originating in" a vaccination zone mean-

- (a) animals kept in the vaccination zone, and
- (b) animals which were kept within the boundaries of the vaccination zone at any time during the period-
  - (i) beginning 21 days before the declaration of the vaccination zone, and
  - (ii) ending with that declaration.

### **Premises comprising common or unenclosed land**

3. In these Regulations-

- (a) common or unenclosed land forms separate premises from other land unless-
  - (i) the parcels of land adjoin, and
  - (ii) all animals kept on each parcel of land are in the charge of the same keeper;
- (b) a notice which is to be served on the occupier of premises wholly or partially comprising any common or unenclosed land is validly served if served on every keeper of animals kept there (so far as those persons are reasonably ascertainable);
- (c) a requirement or restriction imposed on the occupier of premises wholly or partially comprising any common or unenclosed land applies to every keeper of animals kept there.

## **Trwyddedau a datganiadau**

4.-(1) Pan roddir trwyddedau o dan y Rheoliadau hyn-

- (a) rhaid eu rhoi mewn ysgrifen,
- (b) ceir peri iddynt fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn angenrheidiol i atal y clwy rhag ymledu, yn ogystal ag unrhyw amodau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn, ac
- (c) ceir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu mewn ysgrifen ar unrhyw adeg.

(2) Ac eithrio pan gyfarwyddir fel arall gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd trwydded a roddir yn Lloegr neu'r Alban at yr un diben â thrwydded y caniateir ei rhoi o dan y Rheoliadau hyn yn ddilys at y diben hwnnw yng Nghymru a bydd ei hamodau'n gymwys yng Nghymru fel pe bai'n drwydded a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i ddatganiadau a wneir o dan y Rheoliadau hyn fod mewn ysgrifen a rhaid i unrhyw ddiwygiad neu ddirymiad o ddatganiad gael eu gwneud drwy ddatganiad pellach.

## **Hysbysiadau**

5.-(1) Pan roddir hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn-

- (a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig; a
- (b) ceir eu diwygio neu eu dirymu mewn ysgrifen ar unrhyw adeg.

(2) Rhaid i hysbysiadau a gyflwynir i feddiannydd unrhyw fangre sy'n golygu y bydd yna unrhyw ofyniad neu gyfyngiad ynglŷn â'r fangre honno gynnwys disgrifiad o'r fangre honno sy'n ddigonol i ganfod eu hyd a'u lled.

(3) Caniateir diwygio'r disgrifiad hwnnw gan arolygydd milfeddygol os yw wedi'i fodloni nad yw'n disgrifio uned epidemiolegol unigol ynglŷn â'r clwy.

## **Dosbarthu gwybodaeth ynghylch cyfyngiadau a gofynion**

6. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y cyfryw gamau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod trwyddedau, datganiadau a hysbysiadau'n cael eu dwyn i sylw'r rhai y gallent effeithio arnynt ac yn benodol rhaid iddo sicrhau cyhoeddusrwydd i roi gwybod am hyd a lled unrhyw barth a ddatgenir o dan y Rheoliadau hyn, natur y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys iddo a dyddiad ei ddatgan a'i ddileu.

## **Licences and declarations**

4.-(1) Licences granted under these Regulations-

- (a) must be in writing,
- (b) may, in addition to any conditions required by these Regulations, be made subject to such conditions as the National Assembly considers necessary to prevent the spread of disease, and
- (c) may be amended, suspended or revoked in writing at any time.

(2) Except where otherwise directed by the National Assembly, a licence granted in England or Scotland for the same purpose as a licence which may be granted under these Regulations is valid for that purpose in Wales and its conditions apply in Wales as if it was a licence granted under these Regulations.

(3) Declarations under these Regulations must be in writing and any amendment or revocation of a declaration must be made by further declaration.

## **Notices**

5.-(1) Notices issued under these Regulations-

- (a) must be in writing; and
- (b) may be amended or revoked in writing at any time.

(2) Notices whose service on the occupier of any premises results in any requirement or restriction in relation to those premises must contain a description of those premises sufficient to ascertain their extent.

(3) Such a description may be amended by a veterinary inspector if he or she is satisfied that it does not describe a single epidemiological unit in respect of disease.

## **Dissemination of information concerning restrictions and requirements**

6. The National Assembly must take such steps as it considers necessary to ensure that licences, declarations and notices are brought to the attention of those who may be affected by them and in particular must ensure that the extent of any zone declared under these Regulations, the nature of the restrictions and requirements applicable within it and the dates of its declaration and withdrawal are publicised.

## Diheintio

7. Rhaid cyflawni gwaith diheintio o dan y Rheoliadau hyn gan ddiheintydd-

- (a) a gymeradwywyd at ddibenion Gorchmynion Clwy'r Traed a'r Genau gan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy) 1978(1),
- (b) a ddefnyddir yn ôl y crynodiad a bennir yn y Gorchymyn hwnnw, ac
- (c) a ddefnyddir yn unol â chyfarwyddiadau neu argymhellion y gweithgynhyrchydd (os oes rhai) ac yn benodol, os argymhellir ei ddefnyddio cyn unrhyw ddyddiad, ei fod yn cael ei ddefnyddio cyn y dyddiad hwnnw.

## RHAN 2

Y rhaglen frechu

### Gwahardd brechu ac eithrio o dan drwydded

8.-(1) Ni chaniateir i unrhyw berson frechu anifail ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn y rheoliad hwn yn gymwys i-

- (a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodol 1998(2); neu
- (b) y gwaith o roddi brechlyn yn unol â thystysgrif profion ar anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(3).

### Ffactorau sy'n cyfrannu at benderfyniad i ganiatáu brechu ataliol neu amddiffynnol

9.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu a fydd yn caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol-

- (a) y risg y bydd y clwy'n brigo-
  - (i) yn y Deyrnas Unedig ac yn mynd ar led i unrhyw ran o'r wlad,
  - (ii) yn ymledu i Gymru gydag anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, carcasau neu bethau eraill sy'n debyg o ledur y clwy drwy eu mewnfario, neu

(1) O.S. 1978/32, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/583(Cy.49); mae offerynnau diwygio eraill ond nid ydynt yn berthnasol.

(2) O.S. 1998/463.

(3) O.S. 2005/2745.

## Disinfection

7. Disinfection under these Regulations must be carried out with a disinfectant which is -

- (a) approved for use for the purpose of Foot-and-Mouth Disease Orders by the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(1),
- (b) used at the concentration specified in that Order, and
- (c) used in accordance with the manufacturer's instructions or recommendations (if any) and in particular, if use is recommended before any date, used before that date.

## PART 2

The vaccination programme

### Prohibition on vaccination except under licence

8.-(1) No person is permitted to vaccinate an animal except under the authority of a licence granted by the National Assembly permitting suppressive or protective vaccination.

(2) The prohibition in this regulation does not apply to-

- (a) anything done under the authority of a licence granted under article 4 of the Specified Animal Pathogens Order 1998(2); or
- (b) administration of a vaccine in accordance with an animal test certificate granted under regulation 8 of the Veterinary Medicines Regulations 2005(3).

### Factors informing a decision to permit suppressive or protective vaccination

9.-(1) The National Assembly must take into account the following factors in deciding whether to permit suppressive or protective vaccination-

- (a) the risk of an outbreak-
  - (i) in the United Kingdom becoming widespread in any part of the country,
  - (ii) spreading to Wales with imported susceptible animals, carcasses or other things liable to spread disease,

(1) S.I. 1978/32, amended by S.I. 2005/583 (W.49); there are other amending instruments but none are relevant.

(2) S.I. 1998/463.

(3) S.I. 2005/2745.

- (iii) yn ymledu o Gymru gydag anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, carcasau neu bethau eraill sy'n debyg o ledu'r clwy drwy eu hallforio, neu
- (iv) yn ymledu i Gymru neu ohoni oherwydd cyflwr y tywydd ar y pryd;
- (b) unrhyw fygythiad oddi wrth y clwy i anifeiliaid-
  - (i) mewn labordy, swŷ, parc bywyd gwyllt neu fangre arall lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn bennaf at ddibenion eu harddangos ac addysgu'r cyhoedd, neu ardal gaeëdig a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer saethu;
  - (ii) mangre nad yw'n dod o fewn (i) o gorff, sefydliad neu ganolfan-
    - (aa) sy'n cadw anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn unig at ddibenion cadwraeth, arddangos ac addysgu'r cyhoedd, neu ymchwil gwyddonol neu fridio'r anifeiliaid hynny ar gyfer ymchwil, a
    - (bb) a gymeradwywyd ynglŷn â'r anifeiliaid hynny o dan reoliad 9 o Reoliadau Anifeiliaid a Cynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005;
  - (iii) mewn mangre arall lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol o gael y clwy at ddibenion gwyddonol neu at ddibenion sy'n ymwneud â chadwraeth neu rywogaeth neu adnoddau genetig anifeiliaid fferm;
- (c) y meini prawf yn Atodiad X i Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/85/EC ar fesurau'r Gymuned i reoli clwy'r traed a'r genau sy'n diddymu Cyfarwyddeb 85/511/EEC a Phenderfyniadau 89/531/EEC a 91/665/EEC ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 92/46/EEC(1);
- (ch) dulliau eraill o atal y clwy rhag ymledu sydd ar gael iddo;
- (d) yn achos brechu ataliol, a oes angen brechu o'r fath fel mater o frys, i atal y clwy rhag ymledu i fangre neu ardal ddaearyddol drwy leihau'r niferoedd o firysau'r clwy sy'n cylchredeg yno; a
- (dd) yn achos brechu amddiffynnol-
  - (i) a fydd brechu o'r fath yn amddiffyn anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn y parth brechu arfaethedig rhag ymlediad firysau'r clwy drwy'r awyr neu drwy fagwrfeydd, a
  - (ii) effaith y mesurau a fyddai'n cael eu cymhwyso yn y parth brechu amddiffynnol a'r parth gwyliadwriaeth brechu ar bersonau ac anifeiliaid sydd yno.
- (iii) spreading from Wales with exported susceptible animals, carcasses or other things liable to spread disease, or
- (iv) spreading to or from Wales because of the prevailing meteorological conditions;
- (b) any threat from disease to animals in-
  - (i) a laboratory, zoo, wildlife park or other premises where susceptible animals are kept principally for the purposes of display and education of the public, or an enclosed area principally used for shooting;
  - (ii) premises not falling within (i) of a body, institute or centre which-
    - (aa) keeps susceptible animals only for the purposes of conservation, display and education of the public, or scientific research or breeding of such animals for research, and
    - (bb) is approved in relation to those animals under regulation 9 of the Animal and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2005;
  - (iii) other premises where susceptible animals are kept for scientific purposes or purposes related to conservation of species or farm animal genetic resources;
- (c) the criteria in Annex X of Council Directive 2003/85/EC on Community measures for the control of foot-and-mouth disease repealing Directive 85/511/EEC and Decisions 89/531/EEC and 91/665/EEC and amending Directive 92/46/EEC(1);
- (d) other means of preventing the spread of disease available to it;
- (e) in the case of suppressive vaccination, whether such vaccination is necessary urgently to prevent the spread of disease from premises or a geographical area by reducing the quantity of circulating disease virus there; and
- (f) in the case of protective vaccination-
  - (i) whether such vaccination will protect susceptible animals in the proposed vaccination zone against airborne spread or spread through fomites of the disease virus, and
  - (ii) the effect of the measures which would apply in the vaccination zone and vaccination surveillance zone on persons and animals there.

(1) OJ Rhif L306, 22.11.2003,t.l.

(1) OJ No. L306, 22.11.2003, pl.

(2) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl ystyried y ffactorau hynny, yn credu mai caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol yw'r modd mwyaf priodol i atal y clwy rhag ymledu, rhaid iddo benderfynu ymgymryd â rhaglen frechu.

(3) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ymgymryd â rhaglen frechu bydd yn rhoi un neu fwy o drwyddedau sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol.

### **Ffurf y penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu**

**10.**-(1) Rhaid datgan y penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i'r penderfyniad gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y rhaglen frechu-

- (a) ai rhaglen yw am frechu ataliol neu frechu amddiffynnol;
- (b) y lle neu'r ardal ddaearyddol yr ymgymeryd â hi;
- (c) manylion yr anifeiliaid sydd i'w brechu (gan gynnwys eu rhywogaeth a'u hoed),
- (ch) am ba hyd y bwriedir i'r rhaglen frechu barhau;
- (d) hysbysiad o'r gwaharddiad ar symud anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yn rheoliad 12(2);
- (dd) ffurf y tagiau clust sydd i'w gosod a'r cofnodion sydd i'w gwneud o dan reoliad 19.
- (e) unrhyw wybodaeth arall (os oes gwybodaeth o'r fath) y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei hystyried yn angenrheidiol at ddibenion hysbysu'r rhai y gall y rhaglen frechu effeithio arnynt.

(3) Rhaid i unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n golygu newid yn yr wybodaeth yn is-baragraff (2) hefyd gael ei datgan yn ysgrifenedig.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol i ddwyn unrhyw benderfyniad y mae'n ofynnol ei bod yn ysgrifenedig gan y rheoliad hwn i sylw'r rheini y gall effeithio arnynt.

### **Trwyddedau sy'n caniatáu brechu ataliol neu frechu amddiffynnol**

**11.**-(1) Ni chaiff unrhyw drwydded sy'n caniatáu brechu ataliol awdurdodi brechu y tu allan i'r parth gwarchod.

(2) Ni chaiff unrhyw drwydded sy'n caniatáu brechu amddiffynnol awdurdodi brechu mewn parth gwyliadwriaeth brechu.

(3) Ni cheir dehongli trwydded sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol fel bod iddi'r effaith o'i

(2) Where, having taken those factors into account, the National Assembly considers that permitting suppressive or protective vaccination is the most appropriate means of preventing the spread of disease, it must decide to undertake a vaccination programme.

(3) If the National Assembly decides to undertake a vaccination programme it will grant one or more licences permitting suppressive or protective vaccination.

### **Form of the decision to undertake a vaccination programme**

**10.**-(1) The decision to undertake a vaccination programme must be stated in writing.

(2) The decision must contain the following information about the vaccination programme-

- (a) whether it is a programme of suppressive or of protective vaccination;
- (b) the place or geographical area where it is to be undertaken;
- (c) specification of the animals to be vaccinated (including their species and age);
- (d) the intended duration of the programme;
- (e) notice of the prohibition on movement of animals and animal products in regulation 12(2);
- (f) the form of the eartag to be affixed and vaccination records to be made under regulation 19;
- (g) such other information (if any) as the National Assembly considers necessary to inform those who may be affected by the vaccination programme.

(3) Any decision of the National Assembly which results in a change to the information in sub-paragraph (2) must also be stated in writing.

(4) The National Assembly must take such steps as it considers necessary to bring any decision required to be in writing by this regulation to the attention of those who may be affected by it.

### **Licences permitting suppressive or protective vaccination**

**11.**-(1) No licence permitting suppressive vaccination is to authorise vaccination outside a protection zone.

(2) No licence permitting protective vaccination is to authorise vaccination in a vaccination surveillance zone.

(3) A licence permitting suppressive or protective vaccination is not to be interpreted as having the effect

gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn brechu unrhyw anifail.

### **Hwyluso brechu**

12.-(1) Rhaid i geidwad unrhyw anifail a bennir mewn penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu, os gwneir hynny'n ofynnol gan arolygydd neu berson sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd-

- (a) datgan (mewn ysgrifen os oes gofyn), rywogaethau, oed a niferoedd yr anifeiliaid y mae'n gyfrifol amdanynt; a
- (b) cyflwyno unrhyw anifail o'r fath i'w frechu ar yr adeg honno ac yn y lle hwnnw a fo'n ofynnol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu symud y canlynol o unrhyw fangre lle cedwir unrhyw anifail a bennir mewn penderfyniad i ymgymryd â rhaglen frechu cyn bod yr holl anifeiliaid hynny wedi cael eu brechu ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) unrhyw anifail, neu
- (b) unrhyw gynnyrch anifeiliaid a gynhyrchwyd yn y fangre o anifail sy'n dueddol i gael y clwy.

### **Datgan parth brechu a datgan parth gwyliadwriaeth brechu**

13.-(1) Os yw'n penderfynu ymgymryd â rhaglen frechu amddiffynnol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ar yr un pryd ddatgan unrhyw ran o Gymru lle'r ymgymerir â'r rhaglen yn barth brechu a rhaid iddo hefyd ddatgan parth gwyliadwriaeth brechu cysylltiedig.

- (2) Rhaid i ddatganiad o dan baragraff (1) ddynodi-
  - (a) rhychwant y parth brechu, a
  - (b) rhychwant y parth gwyliadwriaeth brechu cysylltiedig, y mae'n rhaid iddo ymestyn o leiaf deg cilomedr o'r parth brechu ac fel arall fod o'r cyfryw faint y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu sy'n angenrheidiol er mwyn rhwystro'r clwy rhag ymledu.

(3) Os yw'n penderfynu amrywio'r lle neu'r ardal ddaearyddol lle y mae'r rhaglen frechu amddiffynnol i ddiwydd, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio'r datganiad o dan baragraff (1) fel bod y parth brechu yn cynnwys y lle neu'r ardal ddaearyddol a amrywiwyd.

### **Datgan parth gwyliadwriaeth brechu ar frechu amddiffynnol yn Lloegr**

14.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan yw rhaglen frechu amddiffynnol i ddiwydd yn Lloegr.

of requiring any person to vaccinate any animal.

### **Facilitation of vaccination**

12.-(1) The keeper of any animal specified in a decision to undertake a vaccination programme must, where required by an inspector or a person acting at his or her direction-

- (a) state (if required, in writing) the species, ages, and numbers of the animals for which he or she is responsible; and
- (b) submit any such animal for vaccination at such time and in such place as required.

(2) No person is permitted to move the following from any premises where any animal specified in a decision to undertake a vaccination programme is kept before all such animals have been vaccinated except under the authority of a licence granted by the National Assembly-

- (a) any animal, or
- (b) any animal product produced on the premises from a susceptible animal.

### **Declaration of a vaccination zone and of a vaccination surveillance zone**

13.-(1) If it decides to undertake a programme of protective vaccination, the National Assembly must at the same time declare any part of Wales where it is to be undertaken to be a vaccination zone and must also declare an associated vaccination surveillance zone.

- (2) A declaration under paragraph (1) must designate-
  - (a) the extent of the vaccination zone, and
  - (b) the extent of the associated vaccination surveillance zone, which must extend from the vaccination zone for at least ten kilometres and otherwise be of such size as the National Assembly considers necessary to prevent the spread of disease.

(3) If it decides to vary the place or geographical area where a programme of protective vaccination is to be undertaken, the National Assembly must amend the declaration under paragraph (1) so that the vaccination zone comprises the place or geographical area as varied.

### **Declaration of a vaccination surveillance zone on protective vaccination in England**

14.-(1) This regulation applies where a programme of protective vaccination is to be undertaken in England.

(2) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys a bod unrhyw ran o'r rhaglen brechu amddiffynnol i ddiwydd o fewn deg cilomedr i ffin Cymru, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan parth gwyliadwriaeth brechu yng Nghymru.

(3) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys a bod parth sy'n hafal ei effaith i barth gwyliadwriaeth brechu wedi cael ei ddatgan yn Lloegr sy'n ffinio â ffin Cymru, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan parth gwyliadwriaeth brechu yng Nghymru.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i barth gwyliadwriaeth brechu a ddatgenir o dan y rheoliad hwn fod o'r cyfryw faint y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried ei fod angenrheidiol i rwystro ymlediad y clwy.

(5) Rhaid i ddatganiad o dan y rheoliad hwn bennu rhychwant y parth gwyliadwriaeth brechu, a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod unrhyw barth o'r fath-

- (a) yn ffinio â'r ffin â Lloegr, a
- (b) yn ymestyn o'r ffin honno fel bod ei derfyn o leiaf ddeg cilomedr oddi wrth perimedr unrhyw barth sydd ag effaith hafal i barth brechu yn Lloegr.

#### **Parthau brechu a pharthau gwyliadwriaeth brechu: darpariaethau cyffredinol**

**15.-(1)** Os yw rhan o unrhyw fangre y tu mewn neu y tu allan i barth brechu, bernir bod y cyfan ohoni y tu mewn i'r parth hwnnw.

(2) Os yw unrhyw fangre yn rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth gwyliadwriaeth brechu, bernir bod y cyfan ohoni y tu mewn i'r parth hwnnw (heblaw am fangre y mae rhan ohoni y tu mewn i barth brechu hefyd).

(3) Bydd ardal yn parhau'n barth brechu neu'n barth gwyliadwriaeth brechu (neu'n rhan o un) hyd nes y bydd y Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) yn diwygio'r datganiad a'i creodd fel yr eithrir yr ardal honno neu,
- (b) yn dirymu'r datganiad hwnnw.

(4) Rhaid i unrhyw ddiwygiad i ddatganiad neu ddirymiad datganiad sy'n creu parth brechu neu barth gwyliadwriaeth brechu gyfeirio at y datganiad hwnnw a dweud y dyddiad a'r amser y mae i gymryd effaith.

#### **Cyfnodau amser a mesurau sy'n gymwys o ran parth brechu**

**16.-(1)** Yn ddarostyngedig i reoliad 25(2), mae darpariaethau'r Atodlen yn gymwys o ran parth brechu heb ragfarnu unrhyw ofynion neu gyfyngiadau sy'n gymwys yn unrhyw ran ohono oherwydd fod y rhan hwnnw yn disgyn o fewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth.

(2) Where this regulation applies and any part of the programme of protective vaccination is to be undertaken within ten kilometres of the border with Wales, the National Assembly must declare a vaccination surveillance zone in Wales

(3) Where this regulation applies and a zone having equivalent effect to a vaccination surveillance zone has been declared in England abutting the border with Wales, the National Assembly may declare a vaccination surveillance zone in Wales.

(4) Subject to paragraph (5), a vaccination surveillance zone declared under this regulation must be of such size as the National Assembly considers necessary to prevent the spread of disease.

(5) A declaration under this regulation must specify the extent of the vaccination surveillance zone, and the National Assembly must ensure that any such zone-

- (a) abuts the border with England, and
- (b) extends from that border such that its boundary is at least ten kilometres from the perimeter of any zone having equivalent effect to a vaccination zone in England.

#### **Vaccination zones and vaccination surveillance zones: general provisions**

**15.-(1)** Any premises which are partly inside and partly outside a vaccination zone are deemed to be wholly within it.

(2) Any premises which are partly inside and partly outside a vaccination surveillance zone are deemed to be wholly within it (except premises which are also partly within a vaccination zone).

(3) An area is to remain a vaccination zone or a vaccination surveillance zone (or part of one) until the National Assembly-

- (a) amends the declaration creating it so as to exclude that area or,
- (b) revokes that declaration.

(4) Any amendment or revocation of a declaration creating a vaccination zone or a vaccination surveillance zone must refer to that declaration and state the date and time it is to take effect.

#### **Time phases and measures applicable in respect of a vaccination zone**

**16.-(1)** Subject to regulation 25(2), the provisions of the Schedule apply in respect of a vaccination zone without prejudice to any requirements or restrictions applying in any part of it because that part falls within a protection zone or a surveillance zone.

(2) Ar ôl i 30 o ddiwrnodau fynd heibio ers brechu'r holl anifeiliaid mewn parth brechu a bennwyd ar gyfer eu brechu mewn penderfyniad i ymgymryd â rhaglen brechu amddiffynnol, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan diwedd cyfnod 1 a dechrau cyfnod 2 a rhaid i ddatganiad o'r fath bennu'r dyddiad a'r amser y mae i fod yn effeithiol.

(3) Ar ôl cwblhau'r mesurau yn is-baragraffau (a) i (ch) yn rheoliad 25(2) ym mhob mangre adweithydd mewn parth brechu, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan diwedd cyfnod 2 a dechrau cyfnod 3 a rhaid i ddatganiad o'r fath bennu'r dyddiad a'r amser y mae i fod yn effeithiol.

(4) Er gwaethaf paragraff (3), caiff y Cynulliad Cenedlaethol, cyn cwblhau'r mesurau hynny ym mhob mangre adweithydd, gyflwyno hysbysiad i feddiannydd unrhyw fangre a ddisbarthwyd ei bod yn rhydd o'r clwy o dan reoliad 25(1)(b) yn datgan bod rhaid i'r fangre honno ddechrau ar gyfnod 3 a bod rhaid barnu bod cyfnod 3 wedi dechrau mewn cysylltiad â'r fangre honno pan gyflwynir yr hysbysiad hwnnw.

(5) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddatgan bod cyfnod 3 wedi dod i ben os yw'n sicr bod y clwy wedi'i ddileu yng Nghymru.

### **Mesurau sy'n gymwys i barth gwyliadwriaeth brechu**

17.-(1) Ni chaniateir i unrhyw berson symud unrhyw anifail sy'n dueddol i gael y clwy o fewn neu allan o barth gwyliadwriaeth brechu ac eithrio-

- (a) oddi mewn i'r fangre lle y'i cedwir, neu
- (b) o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys heb ragfarnu unrhyw ofynion neu gyfyngiadau sy'n gymwys i unrhyw ran o barth gwyliadwriaeth brechu am fod y rhan hwnnw yn disgyn o fewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth.

### **Estyn y pŵer i beri brechu**

18. Er gwaethaf adran 16(1) o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad Cenedlaethol beri bod anifeiliaid nad ydynt yn dod o dan yr is-adran honno yn cael eu brechu os ydynt mewn parth brechu ac mae darpariaethau canlynol y Ddeddf i'w cymhwyso fel pe bai'r cyfryw frechu'n cael ei gyflawni wrth arfer y pŵer yn adran 16(1)-

- (a) gweddill adran 16 (triniaeth ar ôl bod yn agored i haint),
- (b) adran 16A (cigydda anifeiliaid sydd wedi'u brechu), a
- (c) adran 62A (cigydda: pŵer mynediad).

(2) After 30 days have elapsed since all animals in a vaccination zone specified for vaccination in a decision to undertake a programme of protective vaccination have been vaccinated, the National Assembly may declare the end of phase 1 and the commencement of phase 2 and the declaration must specify the date and time it is to take effect.

(3) On completion of the measures in sub-paragraphs (a) to (d) of regulation 25(2) in every reactor premises in a vaccination zone, the National Assembly must declare the end of phase 2 and the commencement of phase 3 and such declaration must specify the date and time it is to take effect.

(4) Notwithstanding paragraph (3), the National Assembly may, before completion of those measures in every reactor premises serve a notice on the occupier of any premises classified as free of disease under regulation 25(1)(b) stating that those premises must enter phase 3 and phase 3 must be deemed to have commenced in respect of those premises on such service.

(5) The National Assembly may declare the end of phase 3 where it is satisfied that the disease has been eradicated in Wales.

### **Measures applying in a vaccination surveillance zone**

17.-(1) No person is permitted to move any susceptible animal within or out of a vaccination surveillance zone except-

- (a) within the premises on which it is kept, or
- (b) under the authority of a licence granted by the National Assembly.

(2) This regulation applies without prejudice to any requirements or restrictions applying in any part of a vaccination surveillance zone because that part falls within a protection zone or a surveillance zone.

### **Extension of the power to cause vaccination**

18. Notwithstanding section 16(1) of the Act, the National Assembly may cause vaccination of animals which do not fall within that sub-section where they are in a vaccination zone and the following provisions of the Act apply as if such vaccination was carried out in exercise of the power in section 16(1)

- (a) the remainder of section 16 (treatment after exposure to infection),
- (b) section 16A (slaughter of vaccinated animals), and
- (c) section 62A (slaughter: power of entry).



## Dynodi anifeiliaid sydd wedi'u brechu

19.-(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddarparu i bob person y dyroddir trwydded iddo sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol ddigon o dagiau clust i'w gosod ar bob anifail a all gael ei frechu o dan y drwydded honno.

(2) Rhaid i bob tag clust ddwyn yr wybodaeth honno y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn ei bod yn angenrheidiol i adnabod yr anifail y gosodwyd y tag arno fel anifail sydd wedi'i frechu.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n brechu anifail-

- (a) ei ddynodi ar unwaith ar ôl ei frechu drwy osod tag arno;
- (b) gwneud cofnod brechu ysgrifenedig sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol-
  - (i) y dyddiad,
  - (ii) y lle, a
  - (iii) disgrifiad o'r anifail;
- (c) sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol a cheidwad yr anifail yn derbyn copi o'r cofnod brechu hwnnw; ac
- (ch) cadw'r cofnod hwnnw am gyfnod o chwe mlynedd.

(4) Rhaid i gofnodion fod yn y ffurf a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Rhaid i bob person a ddarperir â thagiau clust o dan y rheoliad hwn ddychwelyd tagiau clust nas defnyddiwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddi-oed pan hawlir hwy.

## Marcio pasbortau gwartheg

20.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw anifail a bennwyd ar gyfer ei frechu a ddyroddwyd â-

- (a) pasbort gwartheg o dan Orchymyn Pasbortau Gwartheg 1996(1);
- (b) pasbort gwartheg o dan Reoliadau Adnabod Gwartheg 1998(2);
- (c) tystysgrif gofrestru o dan Reoliadau Gwartheg (Adnabod Anifeiliaid Hŷn) (Cymru) 2000(3).

(2) Os bydd gan geidwad unrhyw anifail y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ei basbort gwartheg neu dystysgrif gofrestru yn ei feddiant ar adeg y brechu rhaid iddo ei roi i'r person sy'n cyflawni'r brechu ar yr adeg honno.

---

(1) O.S. 1996/1686.

(2) O.S. 1998/871, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 2000/2976, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## Identification of vaccinated animals

19.-(1) The National Assembly must provide every person issued with a licence permitting suppressive or protective vaccination with sufficient eartags to affix an eartag to every animal which may be vaccinated under that licence.

(2) Each eartag must carry such information as the National Assembly considers necessary to identify the animal to which it is affixed as a vaccinated animal.

(3) Any person vaccinating an animal must-

- (a) identify it immediately after vaccination by affixing an eartag;
- (b) make a written vaccination record containing the following information-
  - (i) the date,
  - (ii) the place, and
  - (iii) a description of the animal;
- (c) ensure that the National Assembly and the keeper of the animal receives a copy of that vaccination record; and
- (d) retain that record for a period of six years.

(4) Records must be in a form approved by the National Assembly.

(5) Every person provided with eartags under this regulation must return unused eartags to the National Assembly on demand and without delay.

## Marking of cattle passports

20.-(1) This paragraph applies to any animal specified for vaccination which is issued with-

- (a) a cattle passport under the Cattle Passports Order 1996(1);
- (b) a cattle passport under the Cattle Identification Regulations 1998(2);
- (c) a registration certificate under the Cattle (Identification of Older Animals)(Wales) Regulations 2000(3).

(2) If the keeper of any animal to which this paragraph applies has its cattle passport or registration certificate in his or her possession at the time of vaccination he or she must give it to the person carrying out the vaccination at that time.

---

(1) S.I. 1996/1686.

(2) S.I. 1998/871, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) S.I. 2000/3339, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(3) Rhaid i'r person sy'n cyflawni'r brechu sicrhau bod y pasbort gwartheg neu dystysgrif gofrestru a roddir iddo ar adeg y brechu yn cael ei farcio neu ei marcio ar yr adeg honno i ddangos bod yr anifail wedi'i frechu ac yna dychwelyd y cyfryw pasbort neu dystysgrif i'r ceidwad.

(4) Os nad yw pasbort gwartheg neu dystysgrif gofrestru unrhyw anifail y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo ym meddiant ei geidwad ar adeg y brechu, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r ceidwad hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol iddo yntau gyflwyno'r cyfryw pasbort neu dystysgrif i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w farcio i ddangos bod yr anifail wedi cael ei frechu.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (4) bennu'r trefniadau gweinyddol y mae'n rhaid eu dilyn wrth gyflwyno'r pasbort gwartheg neu'r dystysgrif gofrestru ar gyfer ei farcio neu ei marcio.

(6) Rhaid i unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad o dan baragraff (4) iddo gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y dychwelir y pasbort gwartheg neu'r dystysgrif gofrestru i'w feddiant yn ddi-oed a rhaid iddo gydymffurfio â gofynion yr hysbysiad yn ddi-oed pan ddychwelir y pasbort neu'r dystysgrif.

#### **Tynnu tagiau clust a thagiau a gollwyd**

**21.**-(1) Ni chaiff unrhyw berson yn fwriadol dynnu tag clust a osodwyd o dan reoliad 19(3) oni thynnir ef er mwyn rhwystro poen a dioddefaint diangen.

(2) Os bydd ceidwad anifail wedi'i frechu yn tynnu ei dag clust yn unol â pharagraff (1) neu'n darganfod bod ei dag clust ar goll rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig yn ddi-oed.

(3) Pan ddaw hysbysiad i law o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) trefnu bod tag clust newydd yn cael ei osod ar yr anifail sydd wedi'i frechu, neu
- (b) pe byddai gosod tag clust yn peri poen a dioddefaint diangen, trefnu bod yr anifail yn cael ei ddynodi yn anifail sydd wedi'i frechu drwy osod marc parhaol annileadwy arno.

(4) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwybod neu sy'n amau bod anifail wedi'i frechu ond nad yw'n cario tag clust hysbysu ceidwad yr anifail hwnnw a'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith.

#### **Gwerthu a chigydda anifeiliaid sydd wedi'u brechu**

**22.** Ni chaniateir i unrhyw berson werthu anifail sydd wedi'i frechu na'i anfon i'w gigydda onid oes ganddo dag clust a osodwyd o dan y Rheoliadau hyn.

(3) The person carrying out the vaccination must ensure that the cattle passport or registration certificate given to him or her at the time of vaccination is marked at that time to indicate that the animal has been vaccinated and then returned to the keeper.

(4) If the cattle passport or registration certificate of any animal to which this paragraph applies is not in the possession of its keeper at the time of vaccination, the National assembly must serve a notice on that keeper requiring him or her to submit it to the National Assembly for marking to indicate that the animal has been vaccinated.

(5) A notice under paragraph (4) must specify the administrative arrangements to be followed when submitting the cattle passport or registration certificate for marking.

(6) Any person on whom a notice under paragraph (4) is served must take all reasonable steps to secure the return of the cattle passport or registration certificate to his or her possession without delay and must comply with the requirements of the notice without delay on its return.

#### **Removal of eartags and missing eartags**

**21.**-(1) No person is permitted to intentionally remove an eartag affixed under regulation 19(3) unless it is removed to prevent unnecessary pain and suffering.

(2) If the keeper of a vaccinated animal removes its eartag in accordance with paragraph (1) or discovers that an eartag is missing he or she must notify the National Assembly in writing without delay.

(3) On receipt of a notification under this regulation, the National Assembly must-

- (a) arrange for a new eartag to be affixed to the vaccinated animal, or
- (b) if affixing an eartag would cause unnecessary pain and suffering, arrange for the animal to be identified as vaccinated by applying a permanent indelible mark.

(4) Any person who knows or suspects that an animal has been vaccinated but is not carrying an eartag must immediately notify the keeper and the National Assembly of that animal.

#### **Sale and slaughter of vaccinated animals**

**22.** No person is permitted to sell a vaccinated animal or send such an animal for slaughter unless it bears an eartag affixed under these Regulations.

### **Methu â brechu anifeiliaid a bennwyd ar gyfer eu brechu**

23.- (1) Rhaid i unrhyw berson sy'n gwybod neu'n amau bod anifail a bennwyd ar gyfer ei frechu ond nas brechwyd ar yr adeg pan ddylid bod wedi gwneud hynny hysbysu ceidwad yr anifail hwnnw a'r Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol o Wasanaeth Milfeddygol y Llywodraeth ar unwaith.

(2) Os yw arolygydd yn amau bod anifail wedi'i bennu ar gyfer ei frechu ond nas brechwyd ar yr adeg pan ddylid bod wedi gwneud hynny rhaid iddo drefnu bod yr anifail hwnnw'n cael ei frechu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ond nid cyn 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad pan ddylai fod wedi cael ei frechu).

### **Carcasau anifeiliaid a bennwyd ar gyfer eu brechu**

24.- (1) Os yw arolygydd yn gwybod neu'n amau bod carcass yn garcas anifail sydd wedi'i frechu ac y bwriedir ei werthu (p'un ai cyn neu ar ôl ei brosesu), ond nad ymdrinnir ag ef felly, caiff gyflwyno hysbysiad i'r person sydd â gofal amdano yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael gwared ag ef.

(2) Os yw arolygydd yn gwybod neu'n amau bod carcass yn garcas anifail sydd wedi'i bennu ar gyfer ei frechu ond nas brechwyd ac y bwriedir ei werthu (p'un ai cyn neu ar ôl ei brosesu), rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i'r person sydd â gofal amdano yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymdrin ag ef bob amser fel pe bai'n garcas anifail sydd wedi'i frechu .

### **Arolygu a dosbarthu mangreoedd yn ystod cyfnod 2**

25.- (1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau yn ystod cyfnod 2-

- (a) bod arolwg clinigol a serolegol yn cael ei gynnal o'r holl fangre yn y parth brechu lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn unol â'r dull canlynol-
  - (i) gwneud archwiliad clinigol o'r holl anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn y parth brechu, a
  - (ii) naill ai-
    - (aa)gwneud prawf i ddarganfod heintiad oherwydd firws y clwy drwy ganfod a yw gwrthgyrff proteinau anadeileddol firws y clwy yn bresennol mewn detholiad o anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, neu
    - (bb)gwneud prawf i ddarganfod a yw gwrthgyrff proteinau anadeileddol firws y clwy yn bresennol ar samplau o'r holl anifeiliaid sydd wedi'u brechu a'u hepil sydd heb eu brechu; a
- (b) bod pob mangre yn y parth brechu lle cedwir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn cael ei dosbarthu yn ôl canlyniad yr arolwg a'r meini

### **Failure to vaccinate animals specified for vaccination**

23.-(1) Any person who knows or suspects that an animal has been specified for vaccination but was not vaccinated at the time when it should have been must immediately notify the keeper of that animal and the Divisional Veterinary Manager of the State Veterinary Service for the area in which that animal is located.

(2) If an inspector suspects that an animal has been specified for vaccination but was not vaccinated on the date it should have been he or she must arrange for that animal to be vaccinated as soon as is reasonably practicable (but not sooner than 21 days after the date it should have been vaccinated).

### **Carcases of animals specified for vaccination**

24.-(1) If an inspector knows or suspects that a carcass is of a vaccinated animal and is intended for sale (whether before or after processing), but is not being dealt with as such he or she may serve a notice on the person in charge of it requiring him or her to dispose of it.

(2) If an inspector knows or suspects that a carcass is of an animal specified for vaccination which has not been vaccinated and is intended for sale (whether before or after processing), he or she must serve a notice on the person in charge of it requiring him or her to deal with it at all times as if it was the carcass of a vaccinated animal.

### **Survey and classification of premises during phase 2**

25.-(1) The National Assembly must ensure that during phase 2-

- (a) a clinical and serological survey of all premises in the vaccination zone where susceptible animals are kept is carried out in accordance with the following method-
  - (i) all susceptible animals in the vaccination zone are clinically inspected, and
  - (ii) either-
    - (aa)testing for infection with the disease virus by an assay for antibodies against non-structural proteins of the disease virus is carried out on a selection of susceptible animals, or
    - (bb)testing for antibodies against non-structural proteins of the disease virus is carried out on samples from all vaccinated animals and their non-vaccinated offspring; and
- (b) every premises in the vaccination zone where susceptible animals are kept is classified according to the outcome of the survey and the

prawf yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn-

- (i) os oedd o leiaf un anifail sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre ac os cadarnhawyd bod firws y clwy yn bresennol ynddo, yn fangre sydd wedi'i heintio;
- (ii) os oedd o leiaf un anifail sy'n dueddol i gael y clwy yr amheuir ei fod wedi'i heintio ond bod profion pellach ar yr holl anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre wedi cadarnhau nad yw firws y clwy yn cylchredeg yno, yn fangre adweithydd (a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r meddiannydd yn datgan bod y fangre yn fangre adweithydd); neu
- (iii) fel arall, yn rhydd o'r clwy (a rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r meddiannydd am y dosbarthiad hwnnw drwy gyflwyno hysbysiad iddo).

(2) Bydd y mesurau canlynol yn gymwys i fangre adweithydd-

- (a) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy y cafwyd canlyniad cadarnhaol ar eu cyfer mewn o leiaf un o'r profion yn is-baragraff 1(a)(ii) yn cael eu cigydda ar y daliad;
- (b) caiff y Cynulliad Cenedlaethol drwy hysbysiad a gyflwynir i'r meddiannydd gyfarwyddo bod anifeiliaid eraill sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre yn cael eu cigydda;
- (c) rhaid i'r meddiannydd gael gwared ar garcasau unrhyw anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy sydd wedi'u cigydda yn y fangre yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd;
- (ch) rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y fangre'n cael ei glanhau a'i diheintio yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn;
- (d) ni chaniateir i unrhyw berson ailstocio'r fangre ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag Atodlen 8 i'r Gorchymyn.

### **Dyletswydd awdurdod lleol i godi arwyddion**

26. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ffiniau pob parth brechu a pharth gwyliadwriaeth brechu yn cael eu dangos gan arwyddion a godir mewn lle amlwg ar yr holl ffyrdd sy'n mynd i mewn i'r parthau y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn cael eu symud arnynt.

### **Masnach anifeiliaid sydd wedi'u brechu o fewn y Gymuned**

27. Ni chaniateir i unrhyw berson anfon unrhyw anifail sydd wedi'i frechu ar gyfer masnach o fewn y Gymuned.

criteria in Schedule 3 of the Order-

- (i) where the premises contained at least one susceptible animal in which the presence of the disease virus is confirmed, as infected premises;
- (ii) where the premises contained at least one susceptible animal suspected of being infected but where further testing including all susceptible animals on the premises confirmed the absence of circulating disease virus, as reactor premises (and the National Assembly must serve a notice on the occupier declaring the premises to be reactor premises); or
- (iii) otherwise, as free of disease (and the National Assembly must communicate that classification by serving a notice on the occupier).

(2) The following measures apply to reactor premises-

- (a) the National Assembly must ensure that susceptible animals which have tested positive to at least one of the tests in sub-paragraph (1)(a)(ii) are slaughtered on the premises;
- (b) the National Assembly may by notice served on the occupier direct that other susceptible animals on the premises must be slaughtered;
- (c) the occupier must dispose of the carcasses of any susceptible animals slaughtered on the premises in accordance with the directions of an inspector;
- (d) the National Assembly must ensure that the premises are cleansed and disinfected in accordance with Schedule 1 of the Order;
- (e) no person is permitted to restock the premises except under the authority of a licence granted by the National Assembly and in accordance with Schedule 8 of the Order.

### **Duty of the local authority to erect signs**

26. The local authority must ensure that the boundaries of every vaccination zone and vaccination surveillance zone are indicated by signs erected in a conspicuous position on all roads entering the zones on which it considers susceptible animals are likely to be moved.

### **Intra-Community trade of vaccinated animals**

27. No person is permitted to send any vaccinated animal for intra-Community trade.

## RHAN 3

Darpariaethau cyffredinol ac atodol

### **Glanhau a diheintio cerbydau: darparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau**

28. Pan fo'n ofynnol glanhau a diheintio cerbydau yn unrhyw fangre gan neu o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i feddiannydd y fangre honno ddarparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau priodol ar gyfer y glanhau a'r diheintio hwnnw.

### **Marciau a osodir o dan y Rheoliadau hyn**

29. Ni chaniateir i unrhyw berson guddio neu ddileu marc a osodir ar unrhyw anifail, carcass, cynnyrch anifeiliaid, cerbyd nac unrhyw beth arall o dan y Rheoliadau hyn oni bai-

- (a) bod y marc yn stamp ar ben marc iechyd neu farc dynodi ac yn yr achos hwnnw caniateir tynnu'r stamp ar ben yn yr un modd â'r marc hwnnw, neu
- (b) bod arolygydd wedi rhoi awdurdod ysgrifenedig.

### **Newid meddiannaeth mangre o dan gyfyngiad**

30.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os nad ydyw ceidwad unrhyw anifail neu ddofedryn yn gallu ei symud o'r fangre ar derfyn ei hawl i feddiannu oherwydd cyfyngiad a osodwyd gan, neu o dan, y Rheoliadau hyn.

(2) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre ar y terfyniad hwnnw-

- (a) darparu'r cyfleusterau hynny i fwydo, gofalu am yr anifail neu'r dofedryn neu ddefnyddio'r anifail neu'r dofedryn fel arall (gan gynnwys ei werthu) y gall y ceidwad yn rhesymol eu gwneud yn ofynnol, a
- (b) caniatáu mynediad i'r fangre i'r ceidwad hwnnw ac i unrhyw berson arall a awdurdodir ganddo ar adegau rhesymol i fwydo, gofalu am yr anifail neu'r dofedryn neu ddefnyddio'r anifail neu'r dofedryn fel arall.

(3) Os nad ydyw'r ceidwad yn gallu neu'n fodlon bwydo neu ofalu am yr anifail neu'r dofedryn, rhaid i'r person sydd â hawl i feddiannu'r fangre gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cael ei fwydo'n briodol ac yn cael gofal priodol.

(4) Mae ceidwad anifail neu ddofedryn yn atebol i dalu'r costau rhesymol a dynnir o dan y rheoliad hwn gan unrhyw berson sy'n ei fwydo neu'n gofalu amdano, neu'n darparu cyfleusterau ar gyfer ei fwydo, gofalu amdano neu'n ei ddefnyddio fel arall.

## PART 3

General and supplementary provisions

### **Cleansing and disinfection of vehicles: provision of facilities, equipment and materials**

28. Where cleansing and disinfection of vehicles is required at any premises by or under these Regulations the occupier of those premises must provide adequate facilities and proper equipment and materials for that cleansing and disinfection.

### **Marks applied under these Regulations**

29. No person is permitted to obscure or erase a mark applied to any animal, carcass, animal product, vehicle or other thing under these Regulations unless-

- (a) the mark is the overstamp to a health mark or identification mark in which case the overstamp may be removed in the same manner as that mark, or
- (b) an inspector has given written authority.

### **Change of occupation of premises under restriction**

30.-(1) This regulation applies if the keeper of any animal or poultry is unable to move it from premises on the termination of his or her right of occupation because of a restriction imposed by or under these Regulations.

(2) Where this regulation applies, the person entitled to occupation of the premises on that termination must-

- (a) provide such facilities for feeding, tending or otherwise using the animal or poultry (including selling it) as the keeper may reasonably require, and
- (b) allow entry to the premises to that keeper and any person authorised by him or her at reasonable times for feeding, tending or otherwise using the animal or poultry.

(3) If the keeper is unable or unwilling to feed or tend the animal or poultry, the person entitled to occupation of the premises must take such steps as are necessary to ensure it is properly fed and tended.

(4) The keeper of the animal or poultry is liable to pay the reasonable costs incurred under this regulation by any person feeding or tending it, or providing facilities for feeding, tending or otherwise using it.

## **Cymorth rhesymol**

31. Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo roi cymorth rhesymol neu wybodaeth resymol i berson sy'n cymryd camau wrth weithredu'r Rheoliadau hyn er mwyn cyflawni ei swyddogaethau oddi tano, wneud hynny'n ddi-oed onid oes ganddo achos rhesymol dros beidio.

## **Gwybodaeth anwir**

32. Ni chaiff neb roi gwybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol i berson sy'n cymryd camau i weithredu'r Rheoliadau hyn.

## **Dangos cofnodion**

33.-(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo ddangos cofnod gan berson sy'n cymryd camau i weithredu'r Rheoliadau wneud hynny'n ddi-oed.

(2) Pan ddangosir y cofnod, caiff person sy'n cymryd camau i weithredu'r Rheoliadau hyn-

- (a) gwneud copi o unrhyw gofnodion, ar ba ffurf bynnag y cedwir hwy, neu
- (b) symud unrhyw gofnodion er mwyn galluogi iddynt gael eu copïo, neu pan gedwir hwy yn electronig, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu llunio mewn ffurf y gellir ei chludo ymaith.

(3) Rhaid i berson sy'n symud cofnodion o dan y rheoliad hwn roi derbynneb ysgrifenedig amdanynt.

## **Cydymffurfio â hysbysiadau a chyfarwyddiadau**

34.-(1) Rhaid cydymffurfio ag unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn ar gost y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, ac eithrio pan ddarperir fel arall yn yr hysbysiad hwnnw.

(2) Rhaid cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd llafar a roddir o dan y Rheoliadau hyn ar gost y person y rhoddir y cyfarwyddyd iddo, ac eithrio pan ddarperir fel arall mewn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## **Pwerau arolygwyr**

35.-(1) Mae adran 63 o'r Ddeddf yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn wedi'u cynnwys yn y Ddeddf ac fel pe bai'r diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy.

(2) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf i'w cymhwyso fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf ac fel pe bai'r diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy-

- (a) adran 64A (pwerau arolygwyr mewn cysylltiad â rhwymedigaethau Cymunedol), a

## **Reasonable assistance**

31. Any person required to give reasonable assistance or information to a person acting in the execution of these Regulations for the performance of his or her functions under it must, unless he or she has reasonable cause, do so without delay.

## **False information**

32. No person is to furnish information which he or she knows to be false or misleading to a person acting in the execution of these Regulations.

## **Production of records**

33.-(1) Any person required to produce a record by a person acting in the execution of these Regulations must do so without delay.

(2) On production, a person acting in the execution of these Regulations may-

- (a) copy any records, in whatever form they may be held, or
- (b) remove any records to enable them to be copied, or where they are kept electronically, require them to be produced in a form which may be taken away.

(3) A person removing records under this regulation must give a written receipt for them.

## **Compliance with notices and directions**

34.-(1) Any notice served under these Regulations must be complied with at the expense of the person on whom it is served, except where otherwise provided in that notice.

(2) Any oral direction given under these Regulations must be complied with at the expense of the person to whom it is given, except where otherwise provided in a written direction of the National Assembly.

## **Powers of inspectors**

35.-(1) Section 63 of the Act applies as if these Regulations were contained within the Act and as if the definition of animal in section 87 of the Act was extended to include every susceptible animal.

(2) The following provisions of the Act apply as if these Regulations were an Order made under the Act and as if the definition of animal in section 87 of the Act was extended to include every susceptible animal-

- (a) section 64A (powers of inspectors relating to Community obligations), and

(b) adran 65(1) i (3) (pŵer i ddal llongau ac awyrennau).

(3) Mae adran 65A o'r Ddeddf (archwilio cerbydau) yn gymwys fel pe bai-

- (a) y Rheoliadau hyn yn Orchymyn o dan y Ddeddf;
- (b) y diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy; ac
- (c) pob parth brechu a pharth gwyliadwriaeth brechu wedi'i ddynodi cyhyd ag y bydd yn para mewn bodolaeth at ddibenion yr adran honno.

### **Gorfodi, troseddau ac achosion**

**36.**-(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf-

- (a) adran 60 (dyletswyddau ac awdurdodiadau cwnstabiliaid),
- (b) adran 66 (gwrthod a rhwystro),
- (c) adran 67 (dyroddi trwyddedau anwir etc.),
- (ch) adran 68 (dyroddi trwyddedau sy'n wag etc.),
- (d) adran 71 (tramgwyddau eraill o ran trwyddedau);
- (dd) adran 71A, (erlyniadau: terfyn amser)
- (e) adran 73 (tramgwyddau cyffredinol);
- (f) adran 77 (arian y gellir ei adennill yn ddiannod), ac
- (ff) adran 79(1) i (4) (tystiolaeth a gweithdrefn)

ac fel pe bai'r diffiniad o anifail yn adran 87 o'r Ddeddf wedi'i estyn i gynnwys pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy.

(2) Mae adran 69 o'r Ddeddf (cael trwyddedau drwy dwyll etc.) yn gymwys fel pe bai trwyddedau, tystysgrifau neu offerynnau a ganiatawyd neu a ddyroddwyd o dan y Rheoliadau hyn wedi'u caniatáu neu eu dyroddi o dan Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf.

(3) Mae adran 75 o'r Ddeddf (cosbau am dramgwyddau diannod) yn gymwys fel pe bai'r Rheoliadau hyn yn Orchymyn a wnaed o dan y Ddeddf ac eithrio nad yw unrhyw gyfnod o garchar ar gollfarn ddiannod i fod yn fwy na thri mis.

### **Dangos trwyddedau a dadlwytho ar ôl symudiadau trwyddedig**

**37.** Rhaid i bob person y dyroddwyd trwydded iddo o dan y Rheoliadau hyn, pan fydd yn cyflawni'r gwaith a drwyddedwyd, o dan y Rheoliadau hyn gadw'r drwydded gydag ef a'i dangos i arolygydd pan hawllir hi yn ddi-oed.

(b) section 65(1) to (3) (power to detain vessels and aircraft).

(3) Section 65A of the Act (inspection of vehicles) applies as if-

- (a) these Regulations were an Order under the Act;
- (b) the definition of animal in section 87 of the Act was extended to include every susceptible animal; and
- (c) every vaccination zone and vaccination surveillance zone was designated for the duration of its existence for the purposes of that section.

### **Enforcement, offences and proceedings**

**36.**-(1) The following provisions of the Act apply as if these Regulations were an Order made under the Act-

- (a) section 60 (duties and authorities of constables),
- (b) section 66 (refusal and obstruction),
- (c) section 67 (issue of false licences etc.),
- (d) section 68 (issue of licences etc. in blank),
- (e) section 71 (other offences as to licences);
- (f) section 71A, (prosecutions: time limit)
- (g) section 73 (general offences);
- (h) section 77 (money recoverable summarily), and
- (i) section 79(1) to (4) (evidence and procedure)

and as if the definition of animal in section 87 of the Act was extended to include every susceptible animal.

(2) Section 69 of the Act (falsely obtaining licences etc.) applies as if licences, certificates or instruments granted or issued under these Regulations were granted or issued under an Order made under the Act.

(3) Section 75 of the Act (penalties for certain summary offences) applies as if these Regulations were an Order made under the Act except that any term of imprisonment on summary conviction is not to exceed three months.

### **Production of licences and unloading after licensed movements**

**37.** Every person issued with a licence under this these regulations, must, while executing the licensed activity, carry the licence and produce it to an inspector on demand and without delay.

### **Pwerau cyffredinol i arolygwyr milfeddygol gymryd camau i rwystro'r clwy rhag ymledu**

38.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob parth brechu a phob parth gwylidwriaeth brechu.

(2) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, caiff arolygydd milfeddygol, os yw o'r farn ei bod yn angenrheidiol i rwystro'r clwy rhag ymledu, ei gwneud yn ofynnol-

- (a) dal ac ynysu unrhyw gerbyd, cyfarpar neu unrhyw beth arall, ac yna eu glanhau a'u diheintio drwy gyflwyno hysbysiad sy'n gwneud y camau hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre lle y mae'r cerbyd, y cyfarpar neu unrhyw beth arall yn bresennol neu i'r person sydd â gofal amdanynt;
- (b) glanhau a diheintio unrhyw fangre neu le arall yn unol ag Atodlen 1 i'r Gorchymyn drwy gyflwyno hysbysiad yn gwneud hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre honno neu'r lle hwnnw;
- (c) gwaredu, golchi, glanhau a diheintio dillad neu esgidiau unrhyw berson drwy gyflwyno hysbysiad iddo sy'n gwneud hynny yn ofynnol;
- (ch) bod unrhyw berson yn ei lanhau ei hunan drwy gyflwyno hysbysiad iddo sy'n gwneud hynny'n ofynnol;
- (d) dal neu ynysu mewn lle penodedig unrhyw anifail neu ddofedyn drwy gyflwyno hysbysiad yn gwneud hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre lle y mae'r anifail neu'r dofedyn yn bresennol, neu i'w geidwad;
- (dd) gwahanu unrhyw anifail neu ddofedyn oddi wrth unrhyw anifeiliaid neu ddofednod eraill drwy gyflwyno hysbysiad yn gwneud hynny'n ofynnol i feddiannydd y fangre lle y mae'r anifail neu'r dofedyn yn bresennol, neu i'w geidwad.

(3) Gall hysbysiad o dan y rheoliad hwn gynnwys y cyfarwyddiadau a'r amodau hynny y mae'r person sy'n ei gyflwyno o'r farn ei fod yn angenrheidiol er mwyn rhwystro ymlediad y clwy.

(4) Nid yw'r pwerau a roddir i arolygydd milfeddygol gan y rheoliad hwn yn rhagfanrnu'r pwerau a roddir gan unrhyw ddapariaeth arall o'r Rheoliadau hyn.

### **Pwerau arolygwyr os ceir methiant**

39.-(1) Os bydd person yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn, caiff arolygydd gymryd unrhyw gamau a farno'n angenrheidiol i sicrhau y bydd y gofyniad yn cael ei fodloni.

### **General powers of veterinary inspectors to take action to prevent the spread of disease**

38.-(1) This regulation applies in every vaccination zone and vaccination surveillance zone.

(2) Where this regulation applies, a veterinary inspector may, if he or she considers it necessary to prevent the spread of disease, require-

- (a) the detention and isolation of any vehicle, equipment or other thing and its subsequent cleansing and disinfection by serving a notice requiring such action on the occupier of the premises where it is present, or on the person in charge of it;
- (b) the cleaning and disinfection of any premises or other place in accordance with Schedule 1 to the Order by serving a notice requiring it on the occupier of those premises or that place;
- (c) the removal, laundering, cleansing and disinfection or disposal of the clothing or footwear of any person by serving a notice on him or her requiring it;
- (d) any person to cleanse himself or herself by serving a notice requiring it on him or her;
- (e) the detention or isolation in a specified place of any animal or poultry by serving a notice requiring it on the occupier of the premises where it is present, or on its keeper;
- (f) the separation of any animal or poultry from other animals or poultry by serving a notice requiring it on the occupier of the premises where it is present, or on its keeper.

(3) A notice under this regulation may contain such directions and conditions as the person serving it considers necessary to prevent the spread of disease.

(4) The powers conferred on a veterinary inspector by this regulation are without prejudice to powers conferred by any other provision of these Regulations.

### **Powers of inspectors in case of default**

39.-(1) Where a person fails to comply with a requirement imposed by or under these Regulations an inspector may take any steps he or she considers necessary to ensure the requirement is met.



(2) Os bydd person yn gweithredu'n groes i ofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn, caiff arolygydd gymryd unrhyw gamau a farno'n angenrheidiol i adfer y sefyllfa er mwyn atal y clwy rhag ymledu.

(3) Wrth gymryd camau o dan baragraff (1) neu (2), caiff arolygydd atafaelu a dal unrhyw anifail, a symudwyd, a gadwyd neu a drafodwyd fel arall yn groes i gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan neu o dan y Rheoliadau hyn.

(4) Wrth gymryd camau o dan baragraff (2), caiff arolygydd drwy hysbysiad a gyflwynir i unrhyw berson gyfarwyddo'r person hwnnw i gymryd neu i ymatal rhag cymryd camau penodol mewn cysylltiad ag unrhyw le, anifail, dofodwyn, cerbyd, cynnyrch anifail neu unrhyw beth arall.

(5) Ni fydd unrhyw gamau a gymerir o dan y rheoliad hwn yn rhagfarnu achos am dramgwydd sy'n deillio o'r methiant.

(6) Rhaid i'r person a fethodd, ad-dalu unrhyw dreuliau rhesymol a dynnwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r awdurdod lleol wrth gymryd camau o'r fath a gellir adennill unrhyw ad-daliad yn ddiannod.

#### **Tramgwyddau gan gyrrff corfforaethol**

**40.**-(1) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran-

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforaethol, neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

bernir bod y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

#### **Tramgwyddau: dim gwybodaeth am y cyfyngiad neu'r gofyniad**

**41.** Ni fydd unrhyw berson yn euog o fethu â chydymffurfio â chyfyngiad neu ofyniad sy'n gymwys oherwydd datgan bod parth-

- (a) yn barth brechu, neu
- (b) yn barth gwyliadwriaeth brechu

os yw'r person yn gallu dangos er boddhad y llys nad oedd yn gwybod am y cyfyngiad neu'r gofyniad

(2) Where a person acts in contravention of a requirement imposed by or under these Regulations an inspector may take any steps he or she considers necessary to rectify the situation so as to prevent the spread of disease.

(3) In taking steps under paragraph (1) or (2) an inspector may seize and detain any animal moved, kept or otherwise dealt with in contravention of a restriction or requirement imposed by or under these Regulations.

(4) In taking steps under paragraph (2), an inspector may by notice served on any person direct that person to take or refrain from specified action in respect of any place, animal, poultry, vehicle, animal product or other thing.

(5) Any steps taken under this regulation are without prejudice to proceedings for an offence arising out of the default.

(6) The person in default must reimburse any reasonable expenses incurred by the National Assembly or the local authority in taking such steps and any reimbursement is recoverable summarily.

#### **Offences by bodies corporate**

**40.**-(1) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of -

- (a) any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate, or
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity,

he or she as well as the body corporate will be guilty of an offence and be liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) For the purposes of paragraph (1), "director" in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate.

#### **Offences: no knowledge of restriction or requirement**

**41.** No person will be guilty of failing to comply with a restriction or requirement which applies because of the declaration of-

- (a) a vaccination zone, or
- (b) a vaccination surveillance zone

if he or she shows to the court's satisfaction that he or she did not know of that restriction or requirement

hwnnw ac na allai gyda diwydrwydd rhesymol fod wedi cael gwybod amdano.

### Gorfodi

42.-(1) Yn ddarostyngedig i bargraffau (2) a (3), yr awdurdod lleol sydd i orfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol orfodi'r Rheoliadau hyn o ran lladd-dai.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddo, o ran achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, bod dyletswydd orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan y Rheoliadau hyn i'w chyflawni gan y Cynulliad Cenedlaethol ac nid gan yr awdurdod lleol.

### Dirymiadau

43. Dirymir yr offerynnau canlynol-

- (a) Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Ardaloedd Heintiedig) (Brechu) 1972(1) (i'r graddau y mae'r Gorchymyn yn gymwys o ran Cymru); a
- (b) Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Gwahardd Brechu) (Cymru) 2001(2) .

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(3).

31 Ionawr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

and that he or she could not with reasonable diligence have obtained knowledge of it.

### Enforcement

42.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), these Regulations are to be enforced by the local authority.

(2) These Regulations are to be enforced in relation to slaughterhouses by the National Assembly.

(3) The National Assembly may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that an enforcement duty imposed on a local authority under these Regulations is to be discharged by the National Assembly and not by the local authority.

### Revocations

43. The following instruments are revoked-

- (a) the Foot-and-Mouth Disease (Infected Areas) (Vaccination) Order 1972(1) (insofar as the Order applies to Wales); and
- (b) the Foot-and-Mouth Disease (Prohibition of Vaccination) (Wales) Regulations 2001(2).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(3).

31 January 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

*D. Elis-Thomas*

---

(1) O.S. 1972/1509.

(2) O.S. 2001/2374 (Cy.198).

(3) 1998 p.38.

---

(1) S.I. 1972/1509

(2) S.I. 2001/2374 (W.198).

(3) 1998 c.38.

Rheoliad 16(1)

Regulation 16(1)

Mesurau sy'n gymwys o ran parth brechu

Measures applicable in respect of a vaccination zone

**RHAN 1****PART 1**

Symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy

Movement of susceptible animals

**Symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn ystod cyfnod 1****Movement of susceptible animals during phase 1**

1.-(1) Yn ystod cyfnod 1 ni chaniateir unrhyw berson symud unrhyw anifail sy'n dueddol i gael y clwy oddi mewn i barth brechu neu allan ohono oni wneir hynny oddi mewn i fangre neu o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

1.-(1) During phase 1 no person is permitted to move any susceptible animal within or out of a vaccination zone except within premises or under the authority of a licence granted by the National Assembly.

(2) Ni cheir rhoi unrhyw drwydded o dan is-baragraff (1) ac eithrio

(2) No licence is to be granted under sub-paragraph (1) except for-

- (a) i gludo anifeiliaid yn uniongyrchol o fangre i ladd-dy i'w cigyddu ar unwaith-
  - (i) yn yr un parth brechu, neu
  - (ii) os nad oes lladd-dy yn y parth brechu hwnnw, y tu allan i'r parth brechu; neu

- (a) direct transport of animals from premises to a slaughterhouse for immediate slaughter-

- (b) symud o un rhan o'r fangre i ran arall o'r un fangre gan ddefnyddio priffordd gyhoeddus rhyngddynt.

- (i) in the same vaccination zone, or
- (ii) where there is no slaughterhouse in that vaccination zone, outside the vaccination zone; or

(3) Ni cheir rhoi trwydded ar gyfer cludo o dan is-baragraff (2)(a) oni bai bod y person sy'n ei rhoi wedi'i fodloni-

(3) No licence is to be granted for transport under sub-paragraph (2)(a) unless the person granting it is satisfied that-

- (a) bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud archwiliad clinigol o fewn y 24 awr flaenorol o bob anifail sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre, a
- (b) nad oes unrhyw amheuaeth o heintiad neu halogiad yn y fangre.

- (a) the National Assembly has within the previous 24 hours carried out a clinical inspection on every susceptible animal on the premises, and
- (b) there is no suspicion of infection or contamination on the premises.

**Symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn ystod cyfnod 2****Movement of susceptible animals during phase 2**

2.-(1) Yn ystod cyfnod 2, ni chaniateir i unrhyw berson symud unrhyw anifail sy'n dueddol i gael y clwy o unrhyw fangre neu i unrhyw fangre mewn parth brechu ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

2.-(1) During phase 2, no person is permitted to move any susceptible animal from or to any premises in a vaccination zone except under the authority of a licence granted by the National Assembly.

(2) Ni cheir rhoi trwydded o dan is-baragraff (1) ar gyfer symud anifail o unrhyw fangre adweithydd onid yw-

(2) No licence is to be granted under sub-paragraph (1) for a movement from any reactor premises unless-

- (a) ar gyfer ei gludo'n uniongyrchol i ladd-dy, er mwyn ei gigyddu ar unwaith, a

- (a) it is for direct transport to a slaughterhouse, for the purpose of immediate slaughter, and

(b) bod pob anifail y gwnaed prawf diagnostig arno gan arolygydd milfeddygol naill ai i ganfod presenoldeb haint neu wrthgyrff yn erbyn proteinau anadeileddol firws y clwy heb gael adwaith cadarnhaol i unrhyw brawf o'r fath.

(3) Ni cheir rhoi trwydded o dan is-baragraff (1) ar gyfer unrhyw symud arall ac eithrio-

(a) i gludo anifeiliaid i ladd-dy er mwyn eu cigydda ar unwaith o fangre a ddosbarthwyd o dan reoliad 25(1)(b) yn un sy'n rhydd o'r clwy, neu

(b) symud o un rhan o'r fangre i ran arall o'r un fangre gan ddefnyddio priffordd gyhoeddus rhyngddynt.

(4) Rhaid i drwydded a roddir o dan y paragraff hwn heblaw am drwydded ar gyfer symud anifeiliaid o dan baragraff (3)(b) ei gwneud yn ofynnol-

(a) na fydd yr anifeiliaid yn dod i gyffyrddiad ag unrhyw anifeiliaid eraill sy'n dueddol i gael y clwy wrth eu cludo neu pan fyddant yn y lladd-dy; a

(b) y rhoddir copi o'r hysbysiad yn dynodi dosbarth daliad yr anifeiliaid o dan reoliad 25(1)(b), a hwnnw wedi'i ardystio'n gopi gwir gan y Cynulliad Cenedlaethol, gyda'r anifeiliaid wrth eu cludo.

### **Symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy yn ystod cyfnod 3**

3.-(1) Yn ystod cyfnod 3, ni chaniateir i unrhyw berson symud unrhyw anifail sy'n dueddol i gael y clwy oddi mewn i barth brechu neu allan ohono oni wneir hynny oddi mewn i fangre neu o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Ni cheir rhoi trwydded ar gyfer symud anifeiliaid allan o'r parth brechu o dan is-baragraff (1) ac eithrio ei bod ar gyfer eu cludo'n uniongyrchol o fangre a ddosbarthwyd o dan reoliad 25(1)(b) yn un sy'n rhydd o'r clwy i ladd-dy er mwyn eu cigydda ar unwaith a'i bod yn cynnwys cydymffurfedd â'r amodau yn is-baragraff (3).

(3) Amodau'r is-baragraff hwn yw-

(a) na fydd yr anifeiliaid yn dod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill sy'n dueddol i gael y clwy wrth eu cludo; a

(b) y rhoddir copi o'r hysbysiad yn dosbarthu mangre darddu'r anifeiliaid o dan reoliad 25(1)(b), a hwnnw wedi'i ardystio'n gopi gwir gan arolygydd, gyda'r anifeiliaid wrth eu cludo.

(4) Ni cheir rhoi trwydded ar gyfer symud anifeiliaid oddi mewn i'r parth brechu o dan y paragraff hwn oni bai

(b) each of the animals has been subjected to a diagnostic test by a veterinary inspector either for infection or for antibodies against non-structural proteins for the disease virus without a positive reaction to any such test.

(3) No licence is to be granted under sub-paragraph (1) for any other movement unless it is for-

(a) transport to a slaughterhouse for the purpose of immediate slaughter from premises classified under regulation 25(1)(b) as free of disease, or

(b) movement from one part of premises to another part of the same premises using an intervening public highway.

(4) A licence granted under this paragraph (other than a licence for movement under sub-paragraph (3)(b)) must require that-

(a) the animals do not come into contact with any other susceptible animals during transport or in the slaughterhouse; and

(b) the animals are accompanied during transport by a copy of the notice classifying their holding under regulation 25(1)(b), certified as a true copy by the National Assembly.

### **Movement of susceptible animals during phase 3**

3.-(1) During phase 3, no person is permitted to move any susceptible animal within or out of a vaccination zone except within premises or under the authority of a licence granted by the National Assembly.

(2) No licence for movement out of the vaccination zone is to be granted under sub-paragraph (1) except where it is for direct transport from premises classified under regulation 25(1)(b) as free of disease to a slaughterhouse for the purposes of immediate slaughter and it complies with the conditions in sub-paragraph (3).

(3) The conditions of this sub-paragraph are that-

(a) the animals do not come into contact with any other susceptible animals during transport; and

(b) the animals are accompanied during transport by a copy of the notice classifying their premises of origin under regulation 25(1)(b), certified as a true copy by an inspector.

(4) No licence for movement within the vaccination zone is to be granted under this paragraph unless-

- (a) ei bod yn pennu llwybr y daith sydd i'w ddilyn, sydd ym marn y person sy'n rhoi'r drwydded, yn sicrhau na fydd yr anifeiliaid yn agored i haint yn ystod y daith, ac naill ai-
- (i) bod yr anifeiliaid o dan sylw heb gael eu brechu, ac y cydymffurfiwyd â'r amodau yn is-baragraff (5), neu
- (ii) bod y symud o un rhan o fangre i ran arall o'r un fangre drwy ddefnyddio priffordd gyhoeddus rhyngddynt.
- (5) Amodau'r is-baragraff hwn yw-
- (a) bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud archwiliad clinigol o fewn y 24 awr flaenorol o bob anifail sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre darddu a heb ganfod arwyddion o'r clwy;
- (b) bod pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy yn y fangre darddu wedi'i gadw yno am o leiaf 30 o ddiwrnodau;
- (c) nad yw'r fangre darddu mewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth; a
- (ch) naill ai-
- (i) bod prawf wedi'i wneud ar bob anifail y bwriedir ei gludo gan arolygydd milfeddygol i ganfod a yw gwrthgyrff y clwy yn bresennol ar ôl iddo fod yn y fangre darddu am gyfnod sydd o leiaf cyhyd â chyfnod magu'r clwy a bod y canlyniadau'n negyddol, neu
- (ii) bod arolwg serolegol yn unol â phrotocol samplu sy'n addas i ganfod 5% o fynychter gydag o leiaf 95% o lefel hyder wedi'i gwblhau ar y fangre darddu gyda chanlyniad negyddol gan arolygydd milfeddygol.
- (6) Ni cheir rhoi trwydded o dan y paragraff hwn ar gyfer symud anifeiliaid sydd heb eu brechu sy'n epil i fam sydd wedi'i brechu oni bai-
- (a) bod prawf serolegol wedi'i wneud gan arolygydd milfeddygol ar bob anifail i ganfod a yw gwrthgyrff y clwy yn bresennol a bod y canlyniadau'n negyddol; neu
- (b) bod y drwydded yn un ar gyfer symud anifeiliaid-
- (i) i fangre yn y parth brechu sydd â'r un dosbarthiad o dan reoliad 25(1)(b); neu
- (ii) i ladd-dy er mwyn eu cigydda ar unwaith; neu
- (iii) i fangre benodedig arall ac, os felly, bydd is-baragraff (7) yn gymwys; neu
- (c) bod y drwydded ar gyfer symud o fewn is-baragraff (4)(a)(ii).
- (a) it specifies a route to be taken which, in the opinion of the person granting the licence, ensures the animals are not exposed to infection during the journey, and either-
- (i) the animals concerned are unvaccinated, and the conditions in sub-paragraph (5) have been complied with, or
- (ii) the movement is from one part of premises to another part of the same premises using an intervening public highway.
- (5) The conditions in this sub-paragraph are that-
- (a) the National Assembly has within the previous 24 hours carried out a clinical examination on every susceptible animal on the premises of origin and has not identified signs of disease;
- (b) every susceptible animal on the premises of origin has been kept there for at least 30 days;
- (c) the premises of origin is not in a protection zone or a surveillance zone; and
- (d) either-
- (i) every animal intended for transport has been tested by a veterinary inspector for antibodies against disease after it has been on the premises of origin for a period at least as long as its incubation period with negative results, or
- (ii) a serological survey pursuant to a sampling protocol suitable to detect 5% prevalence with at least 95% level of confidence has been completed on the premises of origin with negative result by a veterinary inspector.
- (6) No licence is to be granted under this paragraph for movement of the unvaccinated offspring of a vaccinated dam unless either-
- (a) each animal has undergone a serological test by a veterinary inspector for the detection of antibodies against disease with a negative result; or
- (b) the licence is for movement to-
- (i) premises in the vaccination zone with the same classification under regulation 25(1)(b);
- (ii) a slaughterhouse for immediate slaughter; or
- (iii) other specified premises in which case sub-paragraph (7) applies; or
- (c) the licence is for a movement within sub-paragraph (4)(a)(ii).

(7) Pan fydd yr is-baragraff hwn yn gymwys, yn ystod cyfnod 3 ni chaniateir i unrhyw berson wedyn symud unrhyw anifail a symudwyd o'r fangre benodedig honno ac eithrio-

- (a) ei symud i ladd-dy i'w gigydda ar unwaith, neu
- (b) ei symud o un rhan o'r fangre i ran arall o'r un fangre gan ddefnyddio priffordd gyhoeddus rhyngddynt.

(8) Rhaid i feddiannydd unrhyw ladd-dy y caiff anifeiliaid sy'n dueddol o gael y clwy eu cludo iddo o dan awdurdod twydded a roddir o dan y paragraff hwn o unrhyw fangre a ddosbarthwyd yn un sy'n rhydd o'r clwy o dan reoliad 25(1)(b) sicrhau-

- (a) y gwneir archwiliad iechyd ante-mortem o bob anifail yn y lladd-dy cyn ei gigydda, a
- (b) yn y lladd-dy, nad yw'r anifeiliaid a gludir yn dod i gyffyrddiad ag anifeiliaid eraill.

#### **Glanhau a diheintio cebydau sy'n cludo anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy**

4.-(1) Rhaid i'r person sydd â gofal unrhyw gerbyd a ddefnyddir i symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy o dan awdurdod trwydded a roddir o dan baragraff 1, 2 neu 3-

- (a) sicrhau ei fod wedi'i lanhau a'i ddiheintio yn unol ag Atodlen 2 i Orchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003(1) ac unrhyw ofynion ychwanegol y caiff arolygydd drwy gyfarwyddiadau ysgrifenedig eu gosod,
- (b) cofnodi amser a dyddiad pob glanhau a diheintio yr ymgymerir ag ef yn ystod cyfnod 2 neu gyfnod 3,
- (c) cadw'r cofnod gyda'r cerbyd bob amser;
- (ch) cadw'r cofnod am chwe mis ar ôl y glanhau a'r diheintio diwethaf.

(2) Rhaid ymgymryd â'r glanhau a'r diheintio hwnnw-

- (a) cyn llwytho;
- (b) ar ôl llwytho a chyn ymadael â'r fangre darddu (olwynion a bwâu olwynion y cerbyd yn unig fel eu bod yn lân wrth adael y fangre), ac
- (c) ar ôl dadlwytho a chyn ymadael â'r fangre gyrchu.

#### **Dangos trwyddedau a dadlwytho ar ôl symudiadau trwyddedig**

5.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan roddir unrhyw drwydded i symud anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy rhwng mangroedd o dan y Rhan hon, onid

(1) O.S. 2003/1968 (Cy.213).

(7) Where this sub-paragraph applies, during phase 3 no person is permitted to subsequently move any animal moved from those specified premises except for-

- (a) movement to a slaughterhouse for immediate slaughter, or
- (b) movement from one part of the premises to another part of the same premises using an intervening public highway.

(8) The occupier of any slaughterhouse to which susceptible animals are transported under the authority of a licence granted under this paragraph from premises classified as free of disease under regulation 25(1)(b) must ensure that-

- (a) before slaughter each animal undergoes an ante-mortem health check at the slaughterhouse, and
- (b) at the slaughterhouse, the transported animals do not come into contact with other animals.

#### **Cleansing and disinfection of vehicles transporting susceptible animals**

4.-(1) The person in charge of any vehicle used to move susceptible animals under the authority of a licence granted under paragraph 1, 2 or 3 must-

- (a) ensure that it is cleansed and disinfected in accordance with Schedule 2 to the Transport of Animals (Cleansing and Disinfection) (Wales) (No.3) Order 2003(1) and any additional requirements an inspector may by written directions impose,
- (b) make a record of the time and date of each cleansing and disinfection undertaken during phase 2 or phase 3,
- (c) keep the record with the vehicle at all times, and
- (d) retain the record for 6 months after the last such cleansing and disinfection.

(2) Such cleansing and disinfection must be undertaken-

- (a) before loading
- (b) after loading and before leaving the premises of origin (the wheels and wheel arches of the vehicle only so that they are clean on leaving the premises); and
- (c) after unloading and before leaving the premises of destination.

#### **Production of licences and unloading after licensed movements**

5.-(1) This paragraph applies where any licence is granted for movement of susceptible animals between premises under this Part, unless that licence provides

(1) S.I. 2003/1968 (W.213).

yw'r drwydded honno'n darparu fel arall.

(2) Pan fydd y paragraff hwn yn gymwys, ni chaniateir i unrhyw berson ddadlwytho anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy mewn mangre y symudir hwy iddi onid yw'r person hwnnw yn gyntaf yn rhoi'r drwydded symud i feddiannydd y fangre honno.

(3) Pan fydd y paragraff hwn yn gymwys, rhaid i feddiannydd unrhyw fangre y symudir anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy iddi-

- (a) anfon y drwydded symud yn ddi-oed at yr awdurdod lleol ac, yn achos lladd-dy, rhoi copi i unrhyw lawfeddyg milfeddygol swyddogol a benodwyd ar gyfer y fangre honno;
- (b) cadw copi o'r drwydded am gyfnod o 6 mis a'i dangos pan ofynnir am ei gweld gan arolygydd;
- (c) yn achos canolfan gasglu, sicrhau bod defaid wedi'u marcio neu eu tagio yn unol â chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y gellir gwybod lle mae'r ganolfan gasglu a'r fangre y symudwyd hwy ohoni, a phan symudir hwy wedyn i ladd-dy.

## RHAN 2

Cig ffres, briwggig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol

### **Cig ffres etc. sy'n dod o anifeiliaid wedi'u brechu a gigyddwyd yn ystod cyfnod 1**

6.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gig ffres, briwggig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol sy'n dod o anifeiliaid wedi'u brechu a gigyddwyd yn ystod cyfnod 1.

(2) Ni chaniateir i unrhyw berson werthu na thraddodi ar gyfer gwerthu cig y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo onid yw'n bodloni'r gofynion canlynol-

- (a) ei fod wedi'i farcio â marc iechyd neu farc dynodi a bod stamp wedi'i osod ar ben y marc hwnnw;
- (b) ar ôl marcio, ei fod bob amser wedi'i storio a'i gludo ar wahân i gig nad oedd wedi'i farcio yn y modd hwnnw;
- (c) ei fod wedi'i gludo mewn cynwysyddion a seliwyd ar gyfer ei drin mewn sefydliad a ddynodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol;
- (ch) ei fod wedi cael ei drin yn y sefydliad hwnnw fel ei fod yn dod o fewn paragraff 1 o Atodlen 5 i'r Gorchymyn.

otherwise.

(2) Where this paragraph applies, no person is permitted to unload susceptible animals at premises to which they are moved unless that person first gives the movement licence to the occupier of those premises.

(3) Where this paragraph applies, the occupier of any premises to which susceptible animals are moved must-

- (a) forward the movement licence without delay to the local authority and, in the case of a slaughterhouse, provide a copy to any official veterinary surgeon appointed for those premises;
- (b) retain a copy of the licence for a period of 6 months and produce it on request for inspection by an inspector;
- (c) in the case of a collecting centre, ensure that sheep are marked or tagged in accordance with the directions of the National Assembly so as to enable the identity of the collecting centre and the premises from which they were moved to be established throughout their onward movement to a slaughterhouse.

## PART 2

Fresh meat, minced meat and mechanically separated meat

### **Fresh meat etc. derived from vaccinated animals slaughtered during phase 1**

6.-(1) This paragraph applies to fresh meat, minced meat and mechanically separated meat derived from vaccinated animals slaughtered during phase 1.

(2) No person is permitted to sell or consign for sale meat to which this paragraph applies unless it satisfies the following requirements-

- (a) it was health or identification marked and that mark was overstamped;
- (b) after marking, it was at all times stored and transported separately from meat which was not so marked;
- (c) it was transported in sealed containers for treatment at an establishment designated by the National Assembly;
- (d) it was treated at that establishment so that it falls within paragraph 1 of Schedule 5 to the Order.

**Cig ffres etc. sy'n dod o anifeiliaid wedi'u brechu sy'n cnoi cil a gigyddwyd yn ystod cyfnod 2**

7.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gig ffres, briwgig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol sy'n dod o anifeiliaid wedi'u brechu sy'n cnoi cil a gigyddwyd yn ystod cyfnod 2.

(2) Ni chaniateir i unrhyw berson werthu na thraddodi ar gyfer gwerthu offal y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo.

(3) Ni chaniateir i unrhyw berson werthu na thraddodi ar gyfer gwerthu cig heblaw offal y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo oni chafodd ei gynhyrchu mewn sefydliad-

- (a) a awdurdodwyd gan drwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gosod yr amodau hynny y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol i osod rheolaeth filfeddygol gaeth ar y sefydliad;
- (b) sydd ond yn prosesu cig sy'n dod o fewn is-baragraff (4) yn unig; ac
- (c) sydd bob amser yn ystod y broses gynhyrchu yn storio, dynodi a chludo cynhyrchion anifeiliaid sy'n gymwys i'w gwerthu ar wahân i'r rhai nad ydynt, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Mae cig yn dod o fewn yr is-baragraff hwn-

- (a) os-
  - (i) tynnwyd yr esgyrn ohono a'i adael i aeddfedu fel ei fod yn dod o fewn paragraffau 11 a 12 o Atodlen 5 i'r Gorchymyn, neu
  - (ii) cafwyd ef o anifeiliaid a fagwyd ac a gigyddwyd y tu allan i barth brechu; a
- (b) os marciwyd ef â marc iechyd neu farc dynodi.

**Cig ffres etc. o foch wedi'u brechu a gigyddwyd yn ystod cyfnod 2**

8.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gig ffres, briwgig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol sy'n dod o foch wedi'u brechu a gigyddwyd yn ystod cyfnod 2.

(2) Ni chaniateir i unrhyw berson werthu na thraddodi ar gyfer gwerthu cig y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo onid yw'n bodloni'r gofynion canlynol-

- (a) ei fod wedi'i farcio â marc iechyd neu farc dynodi a bod stamp wedi'i osod ar ben y marc hwinnw;
- (b) ar ôl marcio, ei fod bob amser wedi'i storio a'i gludo ar wahân i gig nad oedd wedi'i farcio yn y modd hwinnw;
- (c) ei fod wedi'i gludo mewn cynwysyddion a seliwyd ar gyfer ei drin mewn sefydliad a ddynodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol;

**Fresh meat etc. derived from vaccinated ruminants slaughtered during phase 2**

7.-(1) This paragraph applies to fresh meat, minced meat and mechanically separated meat derived from vaccinated ruminants slaughtered during phase 2.

(2) No person is permitted to sell or consign for sale offal to which this paragraph applies.

(3) No person is permitted to sell or consign for sale meat other than offal to which this paragraph applies unless it has been produced in an establishment which-

- (a) is authorised by a licence granted by the National Assembly imposing such conditions as it considers necessary to impose strict veterinary control of the establishment;
- (b) processes only meat falling within sub-paragraph (4); and
- (c) at all times during the production process stores, identifies and transports animal products eligible for sale separately from those which are not, and in accordance with the directions of the National Assembly.

(4) Meat falls within this sub-paragraph if-

- (a) it has been-
  - (i) deboned and matured so that it falls within paragraphs 11 and 12 of Schedule 5 to the Order, or
  - (ii) obtained from animals reared and slaughtered outside a vaccination zone; and
- (b) it is health or identification marked.

**Fresh meat etc. from vaccinated swine slaughtered during phase 2**

8.-(1) This paragraph applies to fresh meat, minced meat and mechanically separated meat derived from vaccinated swine slaughtered during phase 2.

(2) No person is permitted to sell or consign for sale meat to which this paragraph applies unless it satisfies the following requirements-

- (a) it was health or identification marked and that mark was over stamped;
- (b) after marking, it was at all times stored and transported separately from meat which was not so marked;
- (c) it was transported in sealed containers for treatment at an establishment designated by the National Assembly;



(ch) ei fod wedi cael ei drin yn y sefydliad hwnnw fel ei fod yn dod o fewn paragraff 1 o Atodlen 5 i'r Gorchymyn.

**Cig ffres etc. sy'n dod o anifeiliaid heb eu brechu sy'n dueddol i gael y clwy ac a gigyddwyd mewn parth brechu yn ystod cyfnod 3**

9.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gig ffres, briwgig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol sy'n dod o anifeiliaid heb eu brechu sy'n dueddol i gael y clwy ac a gigyddwyd mewn parth brechu yn ystod cyfnod 3.

(2) Ni chaniateir i unrhyw berson werthu na thraddodi ar gyfer gwerthu cig y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo oni bai-

(a) naill ai-

- (i) bod pob anifail sy'n dueddol i gael y clwy mewn mangre adweithydd yn y parth brechu wedi cael ei gigydda, neu
- (ii) bod yr anifeiliaid y daeth y cig ohonynt wedi cael eu cludo i'r lladd-dy gan gydymffurfio ag is-baragraff (3) neu (4);

(b) ei fod wedi'i gynhyrchu mewn sefydliad sy'n cydymffurfio ag is-baragraff (5).

(3) Mae'r cludo'n cydymffurfio â'r is-baragraff hwn os yw'n bodloni'r gofynion canlynol-

- (a) nad yw'r anifeiliaid yn dod i gyffyrddiad ag unrhyw anifeiliaid eraill sy'n dueddol i gael y clwy yn ystod y cludo neu yn y lladd-dy; a
- (b) bod copi o hysbysiad sy'n dosbarthu eu mangre darddu o dan reoliad 25(1)(b) gyda'r anifeiliaid yn ystod y cludo, wedi'i ardystio'n gopi gwir gan arolygydd.

(4) Mae'r cludo'n cydymffurfio â'r is-baragraff hwn os yw'r anifeiliaid a gludir naill ai-

- (a) i gyd wedi cael eu profi gan y Cynulliad Cenedlaethol am wrthgyrff yn erbyn y clwy ar ddiwedd cyfnod magu'r clwy gyda chanlyniadau negyddol, neu
- (b) wedi bod yn destun arolwg serolegol gan y Cynulliad Cenedlaethol ar yr adeg honno gyda chanlyniadau negyddol.

(5) Mae sefydliad yn cydymffurfio â'r paragraff hwn-

- (a) os awdurdodwyd ef gan drwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gosod yr amodau hynny y mae o'r farn eu bod yn angenrheidiol i osod rheolaeth filfeddygol gaeth ar y sefydliad;
- (b) os yw'n prosesu cig sy'n dod o fewn is-baragraff (6) yn unig; ac
- (c) os yw bob amser yn ystod y broses gynhyrchu yn storio, dynodi a chludo cynhyrchion anifeiliaid sy'n gymwys i'w gwerthu ar wahân

(d) it was treated at that establishment so that it falls within paragraph 1 of Schedule 5 to the Order.

**Fresh meat etc. derived from unvaccinated susceptible animals slaughtered in a vaccination zone during phase 3**

9.-(1) This paragraph applies to fresh meat, minced meat and mechanically separated meat derived from unvaccinated susceptible animals slaughtered in a vaccination zone during phase 3.

(2) No person is permitted to sell or consign for sale meat to which this paragraph applies unless-

(a) either-

- (i) all susceptible animals on all reactor premises in the vaccination zone have been slaughtered, or
- (ii) the animals from which the meat was derived were transported to the slaughterhouse in compliance with sub-paragraph (3) or (4); and

(b) it was produced in an establishment which complies with sub-paragraph (5).

(3) Transport complies with this sub-paragraph if it satisfies the following requirements-

- (a) the animals do not come into contact with any other susceptible animals during transport or in the slaughterhouse; and
- (b) the animals are accompanied during transport by a copy of the notice classifying their premises of origin under regulation 25(1)(b), certified as a true copy by an inspector.

(4) Transport complies with this sub-paragraph if the animals transported have either-

- (a) all been tested by the National Assembly for antibodies against the disease after the end of its incubation period with negative results, or
- (b) been subjected to a serological survey by the National Assembly at that time with negative results.

(5) An establishment complies with this paragraph if it-

